

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	PWYLLGOR GWAITH
Dyddiad:	22 MEDI 2026
Pwnc:	CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2027/28 - 2029/30
Deilydd(ion) Portffolio:	Y CYNGHORYDD ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Awdur yr Adroddiad:	MARC JONES - CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151
Aelodau Lleol:	DDIM YN BERTHNASOL

A - Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Mae'n rhaid i'r Cyngor roi system gadarn ar waith i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw ac mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn elfen allweddol o'r system honno. Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac mae'n nodi'r rhagdybiaethau a gynhwysir yn y broses ar gyfer gosod y gyllideb flynyddol.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllido a nodir yn yr adroddiad fel rhan o'r broses ar gyfer gosod cyllideb refeniw 2027/28.

Mae'r adroddiad manwl ynghlwm fel Atodiad A.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn seiliedig ar nifer o ragdybiaethau, a seiliwyd ar y wybodaeth orau sydd ar gael. Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill, felly.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 o Gyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gyhoeddi datganiad cyn pennu cyllideb, a hynny cyn 30 Medi bob blwyddyn.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi, yn unol â pharagraff 4.3.2.2.1 o Gyfansoddiad y Cyngor.

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ni fydd y penderfyniad, er y caiff effaith ar gyllideb 2027/28, yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol nac yn creu unrhyw incwm ychwanegol yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27. O ganlyniad, ni fydd y penderfyniad hwn yn cael effaith ar y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer 2026/27.

Dd - Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hir dymor fel ynys?

Mae'r CATC yn nodi sefyllfa ariannol y Cyngor dros y 3 mlynedd ariannol nesaf. Mae hyn yn cael effaith ar lefel y gwasanaethau y gall y Cyngor eu darparu i ddiwallu anghenion yr Ynys a'i thrigolion.

2. A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?

Mae amlinellu a chytuno ar sefyllfa ariannol ar gyfer y tymor canolig yn caniatáu i'r Cyngor gynllunio ar gyfer costau gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd cynllunio ariannol da yn golygu bod modd osgoi costau dianghenraid yn y dyfodol.

3. A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, gyda phwy?

Mae'r Cyngor, ynghyd â'r 21 Awdurdod Lleol arall yng Nghymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru (LIC) at y sefyllfa ariannol ledled Cymru.

Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio'n agos â'r 5 awdurdod arall yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'r rhagdybiaethau manwl a ddefnyddir yn y cynllun.

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Mae'r cyllidebau refeniw a chyfalaf blyneddol yn destun proses ymgynghori gyhoeddus. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried canlyniad yr Ymgynghoriad cyn cyflwyno ei gynigion cyllideb terfynol i'r Cyngor llawn ym mis Mawrth bob blwyddyn.

5. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Nid yw'r CATC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gwariant yn cael eu cynnwys yn y gyllideb flynyddol a byddai effaith cynigion unigol ar grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu hasesu bryd hynny.

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Nid yw'r CATC yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gwariant. Byddai unrhyw benderfyniadau ynglŷn â gwariant yn cael eu cynnwys yn y gyllideb flynyddol a byddai effaith cynigion unigol ar y rheiny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael eu hasesu bryd hynny

7. Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dim effaith ar y Gymraeg. Bydd unrhyw gynigion cyllideb fyddai'n golygu newid yn y gwasanaethau a ddarperir yn cael eu hasesu o ran yr effaith ar y Gymraeg pan lunnir y cynnig.

E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae'r TA wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 1 Medi 2026. Ymgorfforwyd sylwadau'r Prif Weithredwr ac aelodau eraill y TA yn y drafft terfynol.
2. Cyllid / Swyddog Adran 151	Y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad.
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro'n aelod o'r TArweinyddiaeth ac mae ei sylwadau wedi cael eu hystyried ynghyd â holl sylwadau aelodau'r TA.
4. AD	Nid yw'r materion yn yr adroddiad yn effeithio ar unrhyw faterion Adnoddau Dynol.
5. Eiddo	Ddim yn berthnasol
6. TG	Ddim yn berthnasol
7. Caffael	Ddim yn berthnasol
8. Sgriwtini	Bydd y Panel Sgriwtini Cyllid a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystyried y CATC a'r gyllideb refeniw arfaethedig ar gyfer 2027/28 wrth i'r broses gosod cyllideb fynd rhagddi cyn gosod cyllideb 2027/28 ym mis Chwefror / Mawrth 2027.
9. Aelodau Lleol	Mae'r gyllideb yn berthnasol i holl Aelodau'r Cyngor.

F - Atodiadau

Atodiad 1 - Adroddiad Manwl ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig
Atodiad 2 - Rhagdybiaethau'r CATC
Atodiad 3 - Amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net ar gyfer 2027/28 - 2029/30

Ff- Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

Dim

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

- 1.1. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn nodi lefel yr adnoddau sy'n debygol o fod eu hangen ar y Cyngor am y tair blynedd ariannol nesaf ac mae'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cydbwysu'r angen am adnoddau gyda'r cyllid sydd ar gael.
- 1.2. Paratowyd y CATC yn ystod cyfnod parhaus o ansicrwydd economaidd. Mae chwyddiant bellach yn sylweddol is, ond mae'n parhau'n uwch na tharged Banc Lloegr (BofE) o 2%, ac mae cyfraddau llog wedi bod yn gostwng yn fwy araf o'r herwydd. Ym mis Mehefin 2025, cyflwynodd Llywodraeth y DU ei strategaeth economaidd, yn ogystal â chwblhau adolygiad gwariant cynhwysfawr. Fodd bynnag, gan fod Prif Weinidog newydd wedi'i benodi'n ddiweddar, gallai polisi a strategaeth economaidd newid. Gallai hyn effeithio ar lefelau buddsoddi yn y sector cyhoeddus a gallai hynny wedyn arwain at newid mewn lefelau chwyddiant a chyfraddau llog banc.
- 1.3. Mae digwyddiadau byd-eang, megis parhad y rhyfel yn Wcráin, y rhyfel yn y Dwyrain Canol ac effaith tollau'r UD ar economi'r byd, yn ychwanegu at yr ansicrwydd economaidd a gallai arafu neu wrthdroi'r gostyngiad mewn chwyddiant. Mae lefel chwyddiant yn allweddol i CATC y Cyngor gan ei fod yn gyrru lefelau dyfarniadau cyflog a'r cynnydd yng nghostau contractau allanol y Cyngor.
- 1.4. Mae'r CATC yn ystyried yr holl newidiadau sy'n hysbys y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gyllideb sylfaen ar gyfer 2027/28, ac mae'n gwneud rhagdybiaethau mewn perthynas â'r prif ffactorau sy'n effeithio ar gyllideb refeniw'r Cyngor (costau cyflogau, pensiynau, chwyddiant cyffredinol, cyllid LIC, pwysau demograffig a phwysau ar y galw am wasanaethau).

2. SEFYLLFA ARIANNOL BRESENNOL Y CYNGOR

- 2.1. Ym mis Mawrth 2026, gosododd y Cyngor y gyllideb ganlynol:-

Tabl 1
Cyllideb Refeniw 2026/27

	£'m
Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2025/26	195.443
Chwyddiant Cyflogau a Chostau Staff Eraill	3.210
Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau	5.928
Pwysau Cyllidebol a Buddsoddi mewn Gwasanaethau	1.312
Newidiadau Demograffig	1.333
Newidiadau Cyllido Cyfalaf	0.759
Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer Prosiectau Tai	0.050
Arbedion Cyllidebol a Gostwng Cyllidebau Gwasanaeth	(1.006)
Cyllideb Refeniw Net Derfynol 2026/27	207.029
Cyllidwyd Gan:	
Cyllid Allanol Cyfun (CAC)	144.585
Y Dreth Gyngor (gan gynnwys y Premiwm)	60.759
Cronfeydd Wrth Gefn	1.685
Cyfanswm Cyllid 2026/27	207.029

- 2.2.** Roedd cynnydd o £11.586m yn y gyllideb refeniw net derfynol ar gyfer 2026/27, sef cynnydd o 5.9%. Roedd cynnydd o 4.2% yn y Cyllid Allanol Cyfun (CAC) (ar ôl addasu ar gyfer y newid yn sylfaen y dreth a'r grantiau a drosglwyddwyd i'r setliad). Roedd cynnydd o 6.4% yn incwm debyd y Dreth Gyngor. Roedd cynnydd o 5.1% yn y tâl Band D, ac roedd gweddill y cynnydd yn debyd y Dreth Gyngor o ganlyniad i newid yn sylfaen y dreth a newidiadau o ran nifer yr eiddo oedd yn gorfod talu premiwm y Dreth Gyngor.
- 2.3.** Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26, roedd gan y Cyngor danwariant net o £2.632m (1.35%), ac roedd yr holl Wasanaethau wedi tanwario, ar wahân i Ofal Cymdeithasol Plant, Busnes y Cyngor, Diwylliant, Eiddo, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd ac Adnoddau wedi tanwario. Bychan oedd y gorrariant yn Diwylliant ac Adnoddau a materion penodol a gododd yn 2025/26 oedd i gyfrif am hyn a dylai'r sefyllfa gael ei datrys yn 2026/27.
- 2.4.** Mae'r sefyllfa o ran Gwasanaethau Plant yn fwy pryderus, gyda nifer y plant mewn gofal yn cynyddu a chost lleoliadau yn cynyddu'n sylweddol. Mae hwn yn wasanaeth statudol sy'n cael ei arwain gan y galw ac, i raddau helaeth, nid yw'r Cyngor yn gallu ei reoli. Mae'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Plant wedi cynyddu 150% ers 2017/18, tra bod cyfanswm cyllideb refeniw net y Cyngor ond wedi codi 64.1%, ac mae'r gyllideb bellach yn cyfrif am 9% o gyllideb refeniw net y Cyngor, o gymharu â 5.9% yn 2017/18. Er bod y cyllid wedi cynyddu, mae'r Gwasanaeth yn parhau i orwario yn erbyn ei gyllideb (7.8% yn 2025/26), ac yn ôl arwyddion cynnar bydd yn gorrario eto yn 2026/27, er bod swm ychwanegol o £1m wedi'i ychwanegu at y gyllideb. Mae sefyllfa ariannol y Gwasanaeth yn risg i sefydlogrwydd ariannol y Cyngor yn y tymor canolig i'r tymor hir, er bod gan y Cyngor ddigon o adnoddau ariannol ar gael iddo i gyllido'r costau uwch yn y tymor byr.
- 2.5.** At ei gilydd, roedd tanwariant cyfun o £0.945m ar gyllidebau gwasanaethau'r Cyngor yn 2025/26 ond, os yw'r amrywiannau dros dro yn cael eu diystyru (swyddi gweigion, cyllid grant ychwanegol ac incwm ychwanegol), y sefyllfa sylfaenol yw gorrariant o dros £4m. Mae cyfran o'r diffyg yn y gyllideb hon wedi derbyn sylw wrth osod cyllideb 2026/27, ond mae elfen o dangyllido yn parhau.
- 2.6.** Mae'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd 2025/26 wedi cynyddu balansau cyffredinol y Cyngor, o £18.161m ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i £19.038m, er bod £1.685m wedi'i ddefnyddio fel cyllid ar gyfer cyllideb refeniw 2026/27 ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi dyrannu swm net o £1.763m ar gyfer prosiectau refeniw a chyfalaf penodol. Oherwydd hyn, mae'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael yn gostwng i £15.590m.
- 2.7.** Gellir defnyddio'r balansau cyffredinol i gyllido costau ychwanegol a gyfyd yn ystod y flwyddyn ac nad oes cyllid ar eu cyfer, yn ogystal â chyllido unrhyw orwariant a allai godi yn ystod 2026/27. Mae'r Cyngor wedi gosod targed o gadw 5% o'r gyllideb gwariant refeniw net fel isafswm balans ar gyfer y cronfeydd wrth gefn cyffredinol, mae hyn gyfwerth â £10.35m yn 2026/27, sef £5.24m yn is na'r lefel bresennol.
- 2.8.** Roedd cronfeydd wrth gefn clustnodedig, sy'n cael eu dal gan y Cyngor i gyllido prosiectau unwaith ac am byth penodol, cyllido costau disgwylid yn y dyfodol (e.e. colledion heb eu hyswrio) a chyllid grant heb ei ddefnyddio, yn £25.042m ar 31 Mawrth 2026, sef cynnydd o £4.284m yn ystod y flwyddyn. Cynhaliwyd adolygiad o gronfeydd wrth gefn yn ystod y flwyddyn, a throsglwyddwyd £0.72m o gronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor.
- 2.9.** Fe wnaeth Balansau Ysgolion ostwng yn ystod 2025/26 hefyd, gan ostwng o £5.074m i £4.327m. Roedd sefyllfa cyllideb y Cyngor yn caniatáu iddo gyllido'r cynnydd yn yr holl gostau yn llawn yn 2026/27. Mae ysgolion yn bwriadu defnyddio swm ychwanegol o £1.92m o'u balansau i gyllido eu costau yn 2026/27. Mae balansau ysgolion yn debygol o ostwng ymhellach os yw'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yr un mor heriol ag y mae ar hyn o bryd.

- 2.10.** Roedd yr CAC a dderbyniodd y Cyngor gan LIC £8.828m (6.4%) yn uwch mewn termau ariannol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, nid oedd y cynnydd yn ddigon i gwrdd â'r pwysau chwyddiant oedd yn wynebu'r Cyngor, felly nid oedd yn gynnydd cyllidol mewn termau real. Roedd cynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor ac nid oedd y cynnydd hwnnw, ynghyd â'r cynnydd yn yr CAC, yn ddigon i gyllido'r cynnydd oedd ei angen yng nghyllideb refeniw net y Cyngor. O ganlyniad, defnyddiwyd £1.685m o gronfeydd wrth gefn er mwyn cydbwysu'r gyllideb, ar ben yr £10.664m a ddefnyddiwyd yn ystod y tair blynedd flaenorol. Mae'n bosibl defnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr ac mae hynny'n rhoi amser i'r Cyngor sicrhau bod gwariant hirdymor yn cyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael, ond nid yw'n bosibl parhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor hir ac mae eu defnyddio'n gwanhau gwydnwch ariannol y Cyngor.
- 2.11.** Mae CIPFA yn argymhell defnyddio 4 dangosydd gwydnwch ariannol i asesu sefyllfa ariannol y Cyngor, sef:-
- Bwlch Cyllido fel canran o'r Gwariant Refeniw Net, cyn unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor;
 - Gor / Tanwariant mewn perthynas â gwariant refeniw net;
 - Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fel canran o'r gyllideb refeniw net;
 - Costau Cyllido Cyfalaf fel canran o wariant refeniw net.
- 2.12.** Mae'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â phob dangosydd fel a ganlyn:-

2.12.1

Tabl 2

Y Bwlch Cyllido fel Canran o'r Gyllideb Refeniw Net

Blwyddyn	Cyllideb Ddisymyd	CAC	Y Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol (Nodyn 1)	Cyfanswm Cyllid cyn Cynyddu'r Dreth Gyngor	Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido	% Bwlch
	£'m	£'m	£'m	£'m	£'m	
2018/19	132.337	94.924	33.644	128.568	3.769	2.85%
2019/20	134.702	95.159	35.087	130.246	7.156	5.21%
2020/21	142.203	101.005	39.370	140.375	1.828	1.29%
2021/22	147.076	104.825	41.161	145.986	1.090	0.74%
2022/23	155.501	114.549	42.957	157.506	(2.005)	(1.29%)
2023/24	173.830	123.665	44.879	168.544	5.286	3.04%
2024/25	188.992	126.973	47.628	174.601	14.391	7.61%
2025/26	199.025	135.605	52.628	188.233	10.792	5.42%
2026/27	206.774	144.585	57.101	201.686	5.088	2.46%
Nodyn 1 - Mae ffigyrau'r Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol wedi'u haddasu yn unol â newidiadau yn sylfaen y dreth						

- Dengys y tabl bod y cyfnod o gynni wedi parhau yn 2018/19 a 2019/20, a bod y bwlch cyllido yn golygu bod angen arbedion a chynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor. Fe wnaeth y sefyllfa wella wedyn yn 2020/21 a 2021/22, a llwyddwyd i lenwi'r bwlch cyllido drwy godi'r dreth gyngor yn unol â chwyddiant neu'n is na chwyddiant. Roedd y sefyllfa'n sylweddol well yn 2022/23, ac roedd yn golygu bod modd buddsoddi mwy mewn gwasanaethau, ond mae'r sefyllfa wedi gwaethgu eto ers 2023/24, gyda'r gyllideb yn cael ei chydbwysu drwy gyfuniad o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, cynnydd uwch na chwyddiant yn y Dreth Gyngor ac arbedion cyllidebol. Gwelwyd bylchau cyllido sylweddol yn parhau o 2023/24 ymlaen, er bod y sefyllfa'n well yn 2026/27 wrth i bwysau chwyddiant ostwng ac wrth i LIC gynyddu'r gwariant arfaethedig ar gyfer llywodraeth leol.
- Yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, trafodir sut mae'r sefyllfa o 2027/28 ymlaen yn cymharu â'r data hanesyddol hwn.

2.12.2

Tabl 3
Gor / Tanwariant o gymharu â Chyllideb Refeniw Net (CRN)

Blwyddyn	Cyllideb Refeniw Net	Gwariant Refeniw Net (GRN)	Gor / (Tan) Wariant	% Gor / (Tan) Wariant
	£'m	£'m	£'m	
2019/20 Gwirioneddol	135.210	134.902	(0.308)	(0.23%)
2020/21 Gwirioneddol	142.146	137.942	(4.204)	(2.96%)
2021/22 Gwirioneddol	147.120	142.323	(4.797)	(3.26%)
2022/23 Gwirioneddol	158.367	157.154	(1.213)	(0.77%)
2023/24 Gwirioneddol	174.569	172.837	(1.732)	(0.99%)
2024/25 Gwirioneddol	184.164	180.289	(3.875)	(2.10%)
2025/26 (yn amodol ar archwiliad)	195.443	193.578	(1.865)	(0.95%)
2026/27 (yn unol â rhagolwg Ch1)	207.029	205.642	(1.387)	(0.67%)

- Er gwaethaf y sefyllfa ariannol heriol bob blwyddyn, mae'r tabl yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw ei wariant net cyffredinol o fewn y gyllideb, gyda Gwasanaethau'n cyd-ymdrechu i foderneiddio dulliau darparu gwasanaethau, lleihau costau neu ohirio gwariant. Mae swyddi gweigion, cyllid grant ychwanegol a chynnydd mewn incwm wedi helpu'r sefyllfa hefyd. Mae hyn yn her barhaus wrth gynnal gwasanaethau statudol sy'n cael eu gyrru gan y galw.

2.12.3

Tabl 4
Cronfeydd wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio fel Canran o'r Gyllideb Refeniw Net

Blwyddyn	Cyllideb Refeniw Net	Balansau Cyffredinol	Cronfeydd Wrth Gefn Clustnodedig	Balansau Ysgolion	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio	% Cronfeydd Wrth Gefn y Gellir eu Defnyddio o gymharu â'r CRN
	£'m	£'m	£'m	£'m	£'m	
2018/19	130.900	5.912	9.458	0.631	16.001	12.22%
2019/20	135.210	7.060	8.760	0.197	16.017	11.85%
2020/21	142.146	11.437	15.455	3.974	30.866	21.71%
2021/22	147.120	12.278	23.183	7.827	43.288	29.42%
2022/23	158.367	14.039	19.638	6.716	40.393	25.51%
2023/24	174.569	15.607	16.517	5.577	37.701	21.60%
2024/25	184.164	18.161	21.449	5.074	44.684	24.26%
2025/26	195.443	19.038	25.042	4.327	48.407	24.76%
Rhagolwg 2026/27	207.029	17.802	15.800	2.402	36.004	17.39%

- Mae'r tabl yn dangos bod sefyllfa ariannol y Cyngor wedi cryfhau'n sylweddol ers 2018/19 o ganlyniad i'r tanwariant yn ystod y saith mlynedd ariannol ddiwethaf, ynghyd â chefnogaeth grant ychwanegol gan LIC a ddarparwyd tu allan i'r setliad grant llywodraeth leol arferol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa'n gwanhau eto yn 2025/26 wrth i falansau cyffredinol a balansau ysgolion gael eu defnyddio i gyllido cyllidebau ac wrth i gronfeydd wrth gefn clustnodedig gael eu defnyddio. Mae'r dangosydd hwn yn dangos y gallai gallu'r Cyngor i barhau i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau fel ffynhonnell gyllido fod yn dirwyn i ben a bydd angen i gyllidebau yn y dyfodol fynd i'r afael â'r tangyllido strwythurol sylfaenol, naill ai trwy gynyddu'r Dreth Gyngor neu ostwng gwariant net.

Tabl 5
Costau Cyllido Cyfalaf fel Canran o Wariant Refeniw Net (GRN)

Blwyddyn	Cyllideb Refeniw Net	Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)	Llog i'w Dalu	Llog a Dderbynnir	Cyfanswm Costau Cyllido Cyfalaf	% Costau Cyllido Cyfalaf yn erbyn GRN
	£'m	£'m	£'m	£'m	£'m	
2018/19	130.900	2.463	4.041	(0.062)	6.442	4.92%
2019/20	135.210	2.655	4.261	(0.127)	6.789	5.02%
2020/21	142.146	2.696	4.159	(0.045)	6.810	4.79%
2021/22	147.120	2.752	3.988	(0.016)	6.724	4.57%
2022/23	158.367	1.325	4.233	(0.800)	4.758	3.00%
2023/24	174.569	1.446	5.773	(3.071)	4.148	2.38%
2024/25	184.164	1.569	3.890	(0.883)	4.576	2.48%
2025/26	195.443	0.356	3.921	(0.426)	3.851	1.97%
2026/27 (Cyllideb)	207.029	2.178	3.684	(0.467)	5.395	2.60%
DRI (Darpariaeth Refeniw Isaf) yw'r swm y mae gofyn statudol i'r Cyngor ei roi o'r neilltu bob blwyddyn i gyllido costau ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol. Cyfrifir y swm yn unol â pholisi DRI y Cyngor.						

- Mae dau reswm bod y ganran wedi gostwng. Yn gyntaf, nid ydym wedi benthycu unrhyw arian allanol ychwanegol ers mis Chwefror 2020 ac rydym wedi defnyddio balansau arian parod y Cyngor i gyllido gwariant cyfalaf y bwriadwyd yn wreiddiol ei gyllido drwy fenthycu â chefnogaeth neu fenthycu digefnogaeth. Yn ail, yn sgil newid y polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI) yn 2022/23, mae'r tâl DRI blyneddol wedi'i haneru yn y blyneddoddd cynnar, er y bydd y tâl yn cynyddu yn y dyfodol.
- Mae'r dangosydd hwn yn arwydd da o iechyd ariannol gan ei fod yn dangos faint o gyllideb refeniw net flynyddol y Cyngor sy'n cael ei defnyddio i gyllido benthyciadau. Po isaf yw'r ffigwr, y mwyaf o gyllid sydd ar gael i gyllido gwasanaethau'r Cyngor.

3. RHAGOLYGN ECONOMAIDD A CHYLLIDEB Y DU

- 3.1. Er bod cyllid canolog y Cyngor yn dod gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU sy'n darparu holl gyllid LIC, ac mae'r hyn sy'n digwydd yn economi'r DU a'r gyllideb yn cael effaith uniongyrchol ar gyllid LIC a chyllid awdurdodau lleol. Mae asesiad o sefyllfa'r DU yn elfen bwysig o'r CATC.
- 3.2. Mae'r pandemig byd-eang, y rhyfeloedd yn Wcráin a'r Dwyrain Canol ac effaith Brexit wedi bod yn sioc sylweddol i economi'r DU ac, o ganlyniad, mae Llywodraeth y DU wedi darparu lefelau digynsail o gefnogaeth i unigolion a busnesau ar ffurf grantiau Covid, grantiau cefnogaeth ynni a grantiau cefnogaeth costau byw. Mae dyled gros Llywodraeth y DU (fel yr adroddwyd gan yr ONS) yn £2.91 triliwn ar hyn o bryd, sef 95.8% o Gynnyrch Domestig Gros (GDP) y wlad. Mae hyn yn cymharu â £2.89 triliwn (ym mis Mawrth 2025), sef 99.6% o GDP.
- 3.3. Yn ystod 2025/26, benthycodd y Llywodraeth £125bn, o gymharu â £154bn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, ac mae wedi benthycu £57.6bn pellach yn barod yn ystod chwarter cyntaf 2026/27. Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd y Canghellor reolau ariannol newydd, sef:-
- i. Bod rhaid symud i sefyllfa lle mae'r gyllideb gyfredol yn cydbwysu, h.y. mae'n rhaid cwrdd â chostau dydd i ddydd o incwm y llywodraeth;

ii. Mae'n rhaid i'r ddyled fod yn gostwng fel canran o GDP erbyn pumed flwyddyn y rhagolwg, h.y. diwedd y senedd bresennol yn 2029.

- 3.4.** Roedd cyllideb y Llywodraeth ym mis Tachwedd 2025 yn cynnwys nifer o newidiadau mewn gwariant a threthi oedd yn caniatáu i'r llywodraeth gyflawni ei rheolau ariannol. Fodd bynnag, mae nifer o bwysau ariannol allai olygu bod y rheolau hyn yn cael eu torri cyn diwedd y senedd. Gwariant ar amddiffyn yw'r prif fater, a'r angen i gynyddu'r gyllideb fel canran o GDP i fodloni ymrwymadau rhyngwladol a sicrhau fod bygythiadau sy'n hysbys, a rhai sy'n dod i'r amlwg, yn derbyn sylw. Gallai hyn, ynghyd â newidiadau polisi diweddar a rhai yn y dyfodol a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog newydd, olygu y bydd rhaid codi trethi, benthyca mwy neu dorri cyllidebau eraill nad ydynt wedi'u diogelu, gan gynnwys cyllidebau lles ac, o bosib, cyllidebau llywodraethau datganoledig.
- 3.5.** Yn yr haf 2025, roedd disgwyl i chwyddiant ostwng a chyrraedd targed BofE o 2% erbyn y gwanwyn neu ddechrau haf 2026. Fodd bynnag, mae'r rhyfel yn y Dwyrain Canol ac ansicrwydd ynghylch cyflenwadau olew wedi achosi i brisiau olew a nwy gynyddu, ac mae chwyddiant wedi cynyddu yn sgil hynny. Er bod chwyddiant wedi gostwng i'w lefel isaf ers tro ym mis Mehefin 2026, mae disgwyl iddo godi yn ystod ail hanner 2026 a bellach nid oes disgwyl iddo gyrraedd targed BofE tan ddiwedd 2027 neu ddechrau 2028. Fodd bynnag, os yw'r ymladd yn y Dwyrain Canol yn parhau am gyfnod estynedig, gallai wthio prisiau olew a nwy hyd yn oed yn uwch a byddai hynny, yn ei dro, yn arwain at lefelau chwyddiant uwch.
- 3.6.** Torrwyd cyfradd sylfaenol Bof E i 0.1% ym mis Mawrth 2020 ac arhosodd ar y lefel isel iawn hon tan ddechrau 2022. Wrth i chwyddiant ddechrau codi, cododd Pwyllgor Polisi Ariannol BofE y gyfradd sylfaenol fesul symiau bychan o 0.25% neu 0.5% yn ystod pob adolygiad, a chyrraeddodd ei lefel uchaf o 5.25% ym mis Awst 2023. Arhosodd y gyfradd ar y lefel hon tan Awst 2024, pan ddechreuodd ostwng fesul symiau bychan, nes cyrraedd ei lefel bresennol o 3.75%. Mae Bof E wedi ymrwymo i reoli chwyddiant a chyfraddau llog yw'r prif arf er mwyn cyflawni'r nod hwn. Wrth i gyfraddau llog godi, mae gan ddefnyddwyr lai o incwm dros ben i'w wario. Mae hyn wedyn yn lleihau galw economaidd ac mae chwyddiant, yn ei dro, yn gostwng. Mae a fydd cyfraddau llog yn parhau i godi neu'n dechrau gostwng yn dibynnu ar p'un a fydd chwyddiant yn unol â tharged Bof E neu'n agos at y targed. Roedd disgwyl i gyfraddau llog barhau i gael eu torri a chyrraedd tua 3% yn 2026, ond gallai lefel uwch na'r disgwyl chwyddiant olygu bod cyfraddau llog yn gostwng yn fwy araf, a'r rhagolwg bellach yw y bydd cyfraddau llog yn aros yr un fath yn 2026 ac yna'n gostwng ychydig yn 2027, a chyrraedd 3.25% erbyn Mawrth 2028. Mae'n debygol wedyn y byddant yn aros ar y lefel hon hyd y gellir rhagweld ac ni fyddant yn disgyn i'r lefelau isel iawn a welwyd rhwng 2009 a 2021.
- 3.7.** Ar hyn o bryd, mae strategaeth economaidd y Llywodraeth yn canolbwyntio ar dyfu'r economi er mwyn cynhyrchu refeniw ychwanegol o drethi. Gwelwyd twf o 1.2% yn yr economi yn 2025/26, ond ni fu unrhyw newid yn ystod deufis cyntaf 2026/27. Rhagwelir twf o thua 1.0% yn yr economi yn 2026 a rhwng 1.0% a 1.3% yn 2027, ond nid yw lefel twf o'r fath yn debygol o gwrdd â'r pwysau ychwanegol ar gostau gwariant y llywodraeth.
- 3.8.** Mae'r sefyllfa economaidd yn parhau i wella, gyda chwyddiant bellach dan reolaeth, ac mae gobaith y bydd cyfraddau llog yn gostwng a thwf economaidd yn dychwelyd. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael â'r lefel uwch nag erioed o ddyled genedlaethol a'r baich treth uchel, ac mae hyn yn cyfyngu'r posibilrwydd o gynyddu gwariant cyhoeddus yn y tymor byr a chanolig.
- 3.9.** Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i warchod cyllideb y Gwasanaeth Iechyd, ynghyd â chynyddu gwariant ar amddiffyn. Bydd hyn yn gofyn am ostyngiad termau real mewn cyllidebau heb eu gwarchod, gan gynnwys y cyllid a ddaw i Gymru. Ni ragwelir, felly, y bydd y cyfyngiadau ariannol ar gyllid y Cyngor yn llacio yn y tymor byr i ganolig.

4. CYLLIDO A'R GYLLIDEB REFENIW

- 4.1. Mae'r gyllideb refeniw yn cael ei gyllido o dair ffynhonnell, y Cyllid Allanol Cyfun (CAC) gan LIC, y Dreth Gyngor a chronfeydd wrth gefn y Cyngor (fel y gwelir yn Nhabl 1 uchod).
- 4.2. Yn 2016/17, derbyniodd y Cyngor £91.928m o CAC. Ar ôl addasu ar gyfer gwerthoedd trosglwyddiadau i mewn ac allan o'r setliad a chaniatáu ar gyfer chwyddiant yn ôl y mynegai prisiau defnyddwyr (CPI), dylai gwerth y CAC yn 2026/27 fod yn £141.324m, o gymharu â'r swm gwirioneddol o £144.585m. Mae hyn yn gynydd o £3.26m (2.3%) mewn termau real yn ystod y cyfnod 10 mlynedd.
- 4.3. Pe byddai cyllideb refeniw'r Cyngor wedi cynyddu'n unol â chwyddiant (ar ôl caniatáu am drosglwyddiadau i mewn i'r setliad) ac ar ôl caniatáu am y newid yn sylfaen y Dreth Gyngor, byddai'r gyllideb yn £191.419m, sef £15.610m yn llai na'r gyllideb wirioneddol. Ar y lefel hon, byddai'r tâl ar gyfer Eiddo Band D yn £1,478.24, o gymharu â'r tâl gwirioneddol ar gyfer eiddo Band D yn 2026/27 o £1,792.98, sydd 21.3% yn uwch.
- 4.4. Roedd angen yr £15.61m ychwanegol yn y gyllideb refeniw wirioneddol i gyllido cynnydd yn y galw am wasanaethau (Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant yn bennaf) a hefyd i liniaru risgiau (e.e. ymosodiadau seiber) a chyllido blaenoriaethau lleol eraill. Cyllidwyd y gyllideb ychwanegol hon gan £3.26m o gyllid CAC ychwanegol ar ben y cynnydd ar gyfer chwyddiant, £10.67m o Dreth Gyngor ychwanegol a thrwy ddefnyddio £1.68m o gronfeydd wrth gefn.
- 4.5. Mae tua 50% o gyllideb LIC yn cyllido'r GIG ac mae LIC dan bwysau i fynd i'r afael â chynnydd yn y rhestrau aros a'r galw am wasanaethau. Mae tua 25% o gyllideb LIC yn cael ei neilltuo ar gyfer Llywodraeth Leol. Gan fod y ddau faes yn wynebu pwysau o ran y galw a chostau, bydd yn anodd iawn gosod cyllidebau sydd yn cyllido'n llawn y cynnydd mewn chwyddiant a chynnydd yn y galw yn y GIG a Llywodraeth Leol.
- 4.6. Roedd yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ym mis Mehefin 2025, yn amlinellu'r cyllid posib ar gyfer Cymru hyd at 2028/29. Ar gyfartaledd, mae disgwyl twf o 1.4% mewn termau real yn y grant bloc i Gymru bob blwyddyn. Daw'r rhan fwyaf o'r cynnydd hwn o ganlyniad i gyllid canlyniadol yn sgil cynyddu cyllidebau'r GIG ac ysgolion yn Lloegr. Hyd yn oed pe byddai'r cyllid canlyniadol yn cael ei drosglwyddo i wasanaethau cyfatebol yng Nghymru, byddai cyllid y GIG yn parhau i dyfu ar lefel is na'i gyfartaledd hanesyddol hirdymor (3.6%). Ond byddai hyn dal yn golygu fod gwasanaethau eraill yn wynebu cyllidebau tynn mewn blynyddoedd i ddod, a bod y cyllidebau hynny'n aros yr un fath - ar y gorau - mewn termau real.
- 4.7. Er mwyn cyllido'r cynnydd hanesyddol yng nghyllidebau'r GIG, mae Dadansoddi Cyllid Cymru yn amcangyfrif cynnydd o ddim ond 0.6% mewn termau ariannol yng nghyllidebau llywodraeth leol yn 2027/28. Fodd bynnag, mae LIC wedi derbyn cyllid canlyniadol ychwanegol o ganlyniad i gynyddu gwariant ar Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn Lloegr ac, yn ychwanegol, nid oedd Llywodraeth flaenorol Cymru wedi dyrannu'r cyfan o gyllideb 2026/27.
- 4.8. Roedd cyllideb atodol LIC, na chafodd ei mabwysiadu ym mis Gorffennaf 2026, yn cynnig £40m o gyllid ADY ychwanegol yng Nghymru yn 2026/27 a £40m yn 2027/28. Pe byddai'r cyllid yn cael ei gynnwys yn y setliad i lywodraeth leol fel cyllid heb ei neilltuo, byddai hyn yn arwain at gynydd o 2.2% yn y CAC ar draws Cymru. Fodd bynnag, nid oes cytundeb rhwng y pleidiau ar y gyllideb atodol ar hyn o bryd ac nid oes gwarant y caiff y cyllid hwn ei gynnwys mewn setliadau yn y dyfodol.
- 4.9. Bydd cyllideb Llywodraeth y DU yn cael ei chyhoeddi ar 26 Tachwedd 2026, ac mae LIC yn bwriadu cyhoeddi eu cyllideb ddrafft ar 17 Tachwedd 2026. Ar ôl cyhoeddi'r ddwy gyllideb, dylai'r sefyllfa mewn perthynas â chyllid llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer 2027/28 a thu hwnt fod yn fwy eglur.

5. PWYSAU CENEDLAETHOL A LLEOL AR Y GYLLIDEB

- 5.1. Mae cyllidebau Llywodraeth Leol yn gyffredinol yn wynebu pwysau o sawl cyfeiriad mewn nifer o wasanaethau statudol sy'n cael eu gyrru gan y galw, yn enwedig Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant a Digartrefedd. Ym mis Hydref 2025, amcangyfrifodd CLILC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) fod Cyngorau yng Nghymru yn wynebu pwysau cyllidebol o £560m yn 2026/27, ynghyd â pwysau pellach o thua £486m yn 2027/28 a £512m yn 2028/29, yn seiliedig ar ddarparu gwasanaethau ar lefel disgwyliedig y galw a chyllido pwysau chwyddiant. Mae arolwg newydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei gynnwys yn y broses o osod cyllideb 2027/28.
- 5.2. Ymysg y pwysau dan sylw, mae gofal cymdeithasol yn gyfrifol am 36%, ysgolion am 24%, tra bod y 40% arall yn gysylltiedig â gwasanaethau eraill y Cyngor. Ar gyfer 2026/27, mae chwyddiant cyflogau a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau yn gyfrifol am 59% o'r pwysau ac mae'r 41% sy'n weddill o ganlyniad i gynnydd yn y galw am wasanaethau (gofal cymdeithasol, ADY a digartrefedd).
- 5.3. Credir bod y prif bwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod cyfnod y cynllun hwn yn cael ei achosi gan y meysydd canlynol:-

i. Codiadau Cyflog – Cyflogau Staff nad ydynt yn Athrawon

Mae cyflogau staff NJC yn cael eu pennu'n genedlaethol gan y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Gynghorau yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon. Ni chytunwyd ar ddyfarniad cyflog 2026/27 eto. Gwnaed cynnig o 3.3% i'r Undebau, ond cafodd ei wrthod. Wrth osod cyllideb 2026/27, neilltuwyd 4% ar gyfer codiad cyflog ac, felly, gellir cyllido'r cynnig presennol o gyllidebau presennol, ond, os yw'r cytundeb terfynol yn fwy na 4%, byddai'n creu pwysau ariannol ychwanegol i'r Cyngor.

Gan nad yw dyfarniad cyflog 2026/27 wedi'i gytuno eto, mae'n anodd amcangyfrif lefel dyfarniad cyflog 2027/28. Un ffactor sylweddol sy'n effeithio ar y dyfarniad cyflog yn y dyfodol yw'r cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol. Yn dilyn cytuno dyfarniad cyflog 2025/26, dilëwyd pwynt 2 ar y raddfa er mwyn sicrhau fod y pwynt isaf ar y raddfa gyflog yn uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Mae Tabl 6 isod yn dangos y gwahaniaethau:-

Tabl 6
Cymhariaeth o'r Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Pwynt Isaf ar y Raddfa Gyflog NJC

	2025/26	2026/27	2027/28
Cyfradd Fesul Awr y Pwynt Isaf ar y Raddfa NJC	£12.85	£13.28	£13.55 ¹
Cyflog Byw Cenedlaethol	£12.21	£12.71	£13.18 ²
Gwahaniaeth rhwng y raddfa NJC a'r Cyflog Byw Cenedlaethol	£0.64	£0.57	£0.37
% Gwahaniaeth rhwng y raddfa NJC a'r Cyflog Byw Cenedlaethol	5.2%	4.5%	2.8%
1. Yn seiliedig ar gynnydd o 2% mewn chwyddiant			
2. Yn seiliedig ar amcangyfrif canolog y Comisiwn Tâl Isel = 3.6%			

Er mwyn cynnal neu gynyddu'r gwahaniaeth, byddai angen cynnydd uwch na chwyddiant yn y pwyntiau isaf ar y raddfa NJC, a gallai hyn olygu fod rhaid ailstrwythuro'r raddfa gyflog i greu bwlch digonol rhwng y graddfeydd NJC a'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Er mwyn cynnal gwahaniaeth o 4.5%, byddai angen codi'r pwynt isaf ar y raddfa i £13.10, sef cynnydd o 3.7%.

Yn gyffredinol, ymddengys bod dyfarniadau cyflog yn parhau i fod yn uwch na lefel y CPI ac nid oes arwydd y bydd hyn yn newid yn y tymor byr. Rhagwelir dyfarniad cyflog uwch na chwyddiant yn 2027/28, ond gallai'r dyfarniad cyflog o 2028/29 ymlaen fod yn agosach at lefel chwyddiant.

ii. Codiadau Cyflog - Cyflogau Athrawon

LIC sy'n pennu cyflogau athrawon, gyda'r dyfarniad cyflog yn weithredol o fis Medi bob blwyddyn. Pennwyd dyfarniad cyflog o 3.5% o fis Medi 2026, sef 0.75% yn is na'r swm oedd yn cael ei argymhell gan Gorff Adolygu Cyflogau Annibynnol Cymru. O ganlyniad, mae'r Undebau athrawon wedi gwrthod y cynnig.

Mae'r cynnig o 3.5% yn 0.2% yn uwch na'r swm oedd wedi'i gynnwys yng nghyllideb 2026/27 a bydd angen cywiriad bychan yn y gyllideb os mai hwn fydd y ffigwr terfynol. Mae LIC yn arfer ariannu costau'r dyfarniad cyflog os yw'n uwch na'r swm oedd wedi'i gynnwys yn y setliad i lywodraeth leol ac, felly, os yw'r dyfarniad cyflog terfynol yn uwch na 3.5%, mae LIC yn debygol o gyllido'r gost.

Mae'r dyfarniad cyflog o fis Medi 2027 hyd yn oed yn anoddach i'w amcangyfrif, ond mae'n debygol o fod yn uwch na'r CPI (allai ostwng i 2.3% erbyn Medi 2027). At ddibenion y cynllun hwn, caniatwyd CPI + 1%, ynghyd â chynnydd ar yr un lefel â CPI ym mis Medi 2028 a 2029.

iii. Cyfraniadau Pensiwn Llywodraeth Leol ac Athrawon

Ail-brisiwyd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn 2025, gyda'r cyfraddau cyfrannu newydd i gyflogwyr yn weithredol rhwng Ebrill 2026 a Mawrth 2029. Mae nifer o ffactorau yn effeithio ar gyfrifo cyfraddau cyfrannu'r cyflogwr, gan gynnwys perfformiad buddsoddiadau'r gronfa, lefel cyfraddau gilt sy'n pennu cyfradd ddisgownt rhwymedigaethau yn y dyfodol, a chyfansoddiad yr aelodaeth bresennol. Gan fod y cynllun yn cael ei gyllido'n llawn ar hyn o bryd, y gobaith yw mai bychan iawn fydd unrhyw newid yng nghyfradd y cyfraniadau ym mis Ebrill 2029. Byddai pob cynnydd o 1% yn y gyfradd yn golygu cynnydd o thua £500k yng nghyllideb y Cyngor.

Cafodd y Cynllun Pensiwn Athrawon ei ailbrisio ym mis Ebrill 2024, gyda chyfraddau cyfrannu athrawon yn cynyddu o 23.58% i 28.58%. Bydd yr ailbrisiad nesaf yn weithredol o fis Ebrill 2027, pan fydd y gyfradd gyfrannu'n gostwng i 17.68%. Bydd hyn yn ostyngiad o 38.5% yng nghyfraniadau'r cyflogwr. Bydd hyn yn golygu gostyngiad o £3.2m yn y gost i Ynys Môn o fis Ebrill 2027. Fodd bynnag, pan gynyddodd cyfradd y cyfraniadau, roedd LIC yn cyllido'r gost ychwanegol o ganlyniad i dderbyn cyllid canlyniadol gan Lywodraeth y DU. Mae swyddogion LIC wedi awgrymu y byddai'r ailbrisiad yn arwain at effaith canlyniadol negyddol, ac y byddai'r CAC a dderbynnir yn lleihau. Byddai hynny'n golygu na fyddai'r cyfraniadau is yn cael unrhyw effaith ar y gyllideb.

iv. Contractau Gwasanaeth Mawr

Mae nifer o Wasanaethau'r Cyngor yn cael eu allanoli, gan gynnwys casglu a gwaredu gwastraff, cynnal a chadw priffyrdd, prydau ysgol, cludiant ysgol a chontractau bysiau cyhoeddus. Mae mwyafrif y contractau yn gytundebau hirdymor a all ddod i ben yn ystod cyfnod y cynllun yma neu ar adeg penodol ar ôl diwedd cyfnod y cynllun yma; mae pob contract hefo dyddiad cychwyn a hyd y gontract gwahanol. Mae pris pob contract yn cael ei godi'n flynyddol gan ddefnyddio set o fynegeion chwyddiant a bennir ymlaen llaw ac a ddiffinnir ym mhob contract. Mae'r gyllideb ar gyfer y contractau hyn oddeutu £25.5m, ac mae'r cynnydd fel arfer yn ddibynnol ar fynegeion chwyddiant yn yr hydref blaenorol.

Bydd yr holl brif gontractau'n dod i ben yn ystod cyfnod y cynllun hwn, er y gellir ymestyn cyfnod y contract casglu gwastraff a'r contract prydau ysgol. Disgwylir i gost y contract cynnal a chadw Priffyrdd gynyddu, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn y cynllun.

v. Costau Ynni

Y gyllideb bresennol ar gyfer ynni (trydan a nwy) yn 2026/27 yw £3.11m (£1.88m ar gyfer trydan a £1.23m ar gyfer nwy), ac mae'r costau uchaf yn gysylltiedig ag ysgolion uwchradd, canolfannau hamdden a phrif swyddfeydd y Cyngor. Mae llawer o waith wedi'i wneud i leihau'r defnydd o ynni yn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys gosod paneli solar a boeler newydd yn Swyddfeydd y Cyngor, a bydd pymphiau gwres yn cael eu gosod ac insiwleiddio'n cael ei wella mewn 27 ysgol ac mewn adeiladau eraill y Cyngor dros y ddwy flynedd nesaf yn sgil derbyn cyllid grant ychwanegol.

Fe wnaeth y Cyngor ail-dendro ei gontractau nwy a thrydan yn fuan yn 2024, gyda'r cyfraddau newydd yn weithredol o fis Hydref 2024 a'r prisiau wedi eu pennu hyd fis Hydref 2027. Manteisiodd y broses dendro ar ostyngiad sylweddol ym mhrisiau nwy a thrydan, a sicrhawyd gostyngiadau o dros 20% drwy'r broses dendro. Fodd bynnag, mae'r farchnad ynni wedi newid ers 2024 ac mae prisiau bellach yn uwch na phan roddwyd y cytundebau ar dendr. Fodd bynnag, mae prisiau'n ansefydlog a gallent newid yn sylweddol cyn i'r Cyngor ail-dendro'r contractau ym mis Hydref 2027, ond bydd llawer yn dibynnu ar ganlyniad y rhyfel yn Wcráin a'r ymladd yn y Dwyrain Canol. Os byddant yn cael eu datrys yn ystod 2026 neu 2027, mae'n bosib y gallai prisiau ddisgyn yn sylweddol, ond os yw'r ymladd yn parhau, mae prisiau'n debygol o fod yn uwch na'r prisiau presennol.

vi. Ffioedd Cartrefi Nyrsio Henoed, Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl a Chartrefi Gofal Preswyl - Pwysau Chwyddiant

Ers nifer o flynyddoedd, roedd y cynnydd blynyddol mewn ffioedd cartrefi nyrsio henoed, pobl hŷn bregus eu meddwl a chartrefi gofal preswyl yn cael ei benderfynu gan ddefnyddio pecyn adnoddau safonol a ddefnyddir gan y 6 awdurdod yng Ngogledd Cymru fel sail ar gyfer cynyddu eu ffioedd. Yn 2022, dechreuodd awdurdodau gefnu ar y pecyn cymorth ond maent yn parhau'n ymrwymedig i geisio cynnal trefniant rhanbarthol. Bu cynnydd o thua 23% yn ffioedd y Cyngor yn ystod y tair blynedd ers 2023/24. Roedd y cynnydd yn adlewyrchu lefel uwch chwyddiant, cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol ac effaith y newid i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr ac mae'n cymharu â chynnydd o 17% yn y CAC.

Mae cynrychiolwyr Fforwm Gofal Cymru yn parhau i ddadlau nad yw'r ffioedd a delir gan y Cyngorau yn cyllido'r costau a wynebir gan gartrefi gofal yn llawn, a bod y ffioedd a delir gan gynghorau Gogledd Cymru yn is, yn gyffredinol, na'r rhai sy'n cael eu talu gan gynghorau yn Ne Cymru.

Mae nifer y cleientiaid sy'n cael eu rhoi mewn cartrefi wedi sefydlogi ac mae'r costau bellach o fewn y gyllideb, ond gallai hyn newid yn gyflym, yn enwedig dros y gaeaf pan fydd mwy o bwysau i ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Mae'r cynllun yn parhau i ddarparu ar gyfer cynnydd uwch na chwyddiant yn y ffioedd yn ystod cyfnod tair blynedd y cynllun. Mae pob cynnydd o 1% mewn ffioedd yn ychwanegu tua £130k at wariant y Cyngor.

vii. Contract Gofal Cartref - Pwysau Chwyddiant

Mae rhan o'r gwasanaeth gofal cartref yn cael ei allanoli i'r sector preifat, ac mae'r contractau'n cael eu hail-dendro'n rheolaidd. Mae cynnydd blynyddol yn y gyfradd fesul awr yn cael ei drafod gyda phob darparwr, a'r prif ffactor sy'n dylanwadu ar gostau yw'r Cyflog Byw Cenedlaethol. Disgwylir i'r Cyflog Byw Cenedlaethol godi 3.7% yn 2027/28, ac mae'r cynnydd hwn, ynghyd â 0.5%, wedi'i gynnwys yn y cynllun ar gyfer y tair blynedd.

viii. Gwasanaethau Plant

Mae'r Gwasanaeth wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y plant mewn gofal a chostau darparu gofal ac, o ganlyniad, buddsoddwyd yn sylweddol yn y Gwasanaeth. Er gwaetha'r cynnydd yn y gyllideb flynyddol, mae'r Gwasanaeth yn parhau i wynebu pwysau costau sylweddol, ac, o ganlyniad, cofnodwyd gorwariant yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Mae Tabl 7 isod yn crynhoi'r sefyllfa ariannol:-

Tabl 7
Gwasanaethau Plant - Cyllideb a Gwirioneddol 2017/18 - 2026/27

Blwyddyn	Cyllideb £	Cynnydd yn y Gyllideb %	Gwirioneddol £	Amrywiant £
2017/18	8,292,690		10,075,336	1,782,646
2018/19	8,728,680	5.3%	10,565,374	1,836,694
2019/20	10,274,340	17.7%	10,430,480	156,140
2020/21	10,971,160	6.8%	10,258,066	-713,094
2021/22	11,196,262	2.1%	10,831,760	-364,502
2022/23	12,341,762	10.2%	13,330,614	988,852
2023/24	13,133,474	6.4%	14,536,308	1,402,834
2024/25	14,428,450	9.9%	16,376,142	1,947,692
2025/26	17,230,411	19.4%	18,567,724	1,337,313
2026/27	18,606,231	8.0%		

Er bod cynnydd o 124% yn y gyllideb ers 2017/18, mae pwysau'n parhau ar y gyllideb, er bod rhagolygon ar ddiwedd chwarter cyntaf 2026/27 yn rhagweld tanwariant o £44k. Fodd bynnag, rhagolwg cynnar yw hyn, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol yn ystod gweddill y flwyddyn.

Mae LIC yn deddfu i ddileu elw o ofal plant, gyda'r nod o gynyddu'r ddarpariaeth gan y sector cyhoeddus. Yn y tymor hir, dylai'r cynnydd mewn capasiti olygu bod y costau a wynebir gan gynghorau'n sefydlogi, ond nid yw'n datrys y broblem capasiti yn y tymor byr, ac mae rhai darparwyr sector preifat yn gadael y farchnad yng Nghymru, gan wneud y broblem yn waeth.

Er bod y Gwasanaeth yn ceisio lleihau costau, mae'r cynllun yn darparu ar gyfer buddsoddiad ychwanegol yn y Gwasanaeth i fynd i'r afael â'r gorwariant, cyllid ychwanegol i gwrdd â chynnydd pellach yn y galw a chynnydd ar gyfer cynnydd mewn chwyddiant sy'n uwch na chwyddiant prisiau cyffredinol. Bydd hyn yn golygu bod angen ychwanegu 8.5% at y gyllideb yn 2027/28, 6.5% yn 2028/29 a 6.0% yn 2029/30.

ix. Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Yn yr un modd â'r Gwasanaethau Plant, mae risg sylweddol y bydd y galw am wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion (pobl mewn oed, iechyd meddwl, anabledd dysgu ac ati) yn cynyddu wrth i boblogaeth yr Ynys heneiddio. Mae hyn yn ychwanegol at bwysau chwyddiant ar gyflogau a chostau darparwyr yn y sector preifat. Mae Tabl 8 isod yn crynhoi'r sefyllfa ariannol:-

Tabl 8
Gwasanaethau Oedolion - Y Gyllideb a Gwirioneddol 2017/18 - 2026/27

Blwyddyn	Cyllideb £	Cynnydd yn y Gyllideb %	Gwirioneddol £	Amrywiant £
2017/18	22,540,700		22,686,948	146,248
2018/19	24,921,360	9.6%	26,094,400	1,173,040
2019/20	25,205,360	1.1%	26,289,869	1,084,509
2020/21	27,159,700	7.2%	26,927,431	-232,269
2021/22	27,736,225	2.1%	27,599,371	-136,854
2022/23	30,583,049	9.3%	30,530,210	-52,839
2023/24	35,780,051	14.5%	35,194,687	-585,364
2024/25	38,956,887	8.2%	38,021,144	-935,743
2025/26	42,355,590	8.7%	41,482,257	-873,333
2026/27	45,376,720	7.1%		

Mae'r gyllideb wedi cynyddu 101% ers 2017/18 ac, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i ddarparu'r holl wasanaethau o fewn y gyllideb a gytunwyd, ond mae hyn yn rhannol oherwydd swyddi gweigion, incwm ychwanegol gan gleientiaid a derbyn cyllid grant ychwanegol bob blwyddyn. Oni bai am y ffactorau yn, byddai'r gwasanaeth yn wynebu gorwariant o thua £1.5m.

Yn ogystal â chwyddiant, mae'r cynllun yn darparu ar gyfer cynnydd o rhwng 0.5% a 1.5% yn uwch na chwyddiant mewn prisiau a chynnydd o 3.6% yn y galw am wasanaethau yn 2027/28, ac ar gyfer 2028/29 a 2029/30 mae chwyddiant o CPI + 0.5% wedi'i ganiatáu, ynghyd â chynnydd o 2% yn y galw.

x. Digartrefedd

Mae'r gyllideb ar gyfer 2026/27 dan reolaeth, ac mae'r Cyngor yn manteisio ar gynllun lesio preifat sy'n rhoi'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i sicrhau fod tenantiaid sy'n cael eu lleoli yn yr eiddo hynny yn gallu hawlio budd-dal tai yn llawn. Mae hyn yn rhatach na llety gwely a brecwast ac mae'n sicrhau fod costau net y Cyngor yn gostwng gan fod yr unigolion yn derbyn budd-dal tai.

Er bod atal digartrefedd yn rhoi pwysau ar gyllidebau nifer o gynghorau yng Nghymru, nid yw'n cael ei ystyried yn risg sylweddol ar Ynys Môn ar hyn o bryd ac, fel y cyfryw, nid oes unrhyw ofyniad ariannol ychwanegol penodol wedi'i gynnwys yn y cynllun, er bod darpariaeth wedi'i wneud ar gyfer cynnydd o 2% yn nifer yr achosion.

xi. Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor

Ers trosglwyddo'r cyllid ar gyfer y cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (CTRS) i'r setliad llywodraeth leol, nid yw'r swm y mae LIC yn ei gynnwys yn yr Asesiad Gwariant Safonol wedi newid i raddau helaeth. Wrth i lefelau'r Dreth Gyngor gynyddu, mae'r gost yn disgyn ar drethdalwyr Ynys Môn. Roedd cynnydd o 5.0% yn y gyllideb ar gyfer 2026/27, ac roedd hyn yn cyd-fynd â'r cynnydd yn y Dreth Gyngor.

Mae'n anodd penderfynu ar lefel y gyllideb ac mae'n gysylltiedig â pherfformiad yr economi a lefel diweithdra ar Ynys Môn. Mae lefel diweithdra yn y DU yn 4.9% ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo godi i rhwng 5% a 5.5% erbyn diwedd y flwyddyn, cyn disgyn yn ôl i 4.5% erbyn diwedd 2027. O ganlyniad, nid yw'r cynllun ond yn caniatáu ar gyfer cynnydd yn y gyllideb yn unol â'r cynnydd disgwylidig yn lefel y Dreth Gyngor.

xii. Costau Cyllido Cyfalaf

Yn ogystal â thaliadau llog ar fenthyciadau presennol a benthyciadau newydd, mae'n rhaid i'r Cyngor wneud darpariaeth ar gyfer ad-dalu benthyciadau yn y dyfodol (a elwir yn Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)). Mae'r DRI yn cael ei benderfynu yn unol â'r Polisi DRI a gymeradwywyd gan y Cyngor. Fel arfer, mae gwariant cyfalaf yn galw am rywfaint o fenthycia ychwanegol ac, wrth i'r lefel fenthycia gynyddu, mae'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan y polisi DRI a thaliadau llog cysylltiedig hefyd yn cynyddu. Mae hyn wedi'i gynnwys yn y CATC er mwyn caniatáu ar gyfer y lefel benthycia â chefnogaeth a ganiateir yn y setliad cyllido, ynghyd â'r gwariant a gynlluniwyd gan y Cyngor ac a nodir yn y strategaeth gyfalaf.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio ei falansau arian parod er mwyn cynhyrchu incwm drwy dderbyn llog ac mae wedi manteisio ar gyfraddau llog a fu'n sylweddol uwch na lefelau hanesyddol. Bydd lefel y balansau arian parod sydd ar gael i'w buddsoddi a'r gyfradd llog yn disgyn yn ystod 2026/27, a bydd yr incwm llog a gynhyrchir hefyd yn gostwng. Mae'r newid posib wedi'i gynnwys yn y cynllun.

xiii. Ardoll y Gwasanaeth Tân

Yn wahanol i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gosod ardoll bob blwyddyn, sy'n cael ei rhannu rhwng y 6 awdurdod Gogledd Cymru ar sail poblogaeth, gydag Ynys Môn yn cyfrannu tua 10%. Mae'r ardoll wedyn yn cael ei gyllido o gyllideb refeniw net y Cyngor ac mae swm mewn perthynas â'r gwasanaeth tân wedi'i gynnwys yn Asesiad Gwariant Safonol LIC.

Yn debyg i gynghorau, mae'r Gwasanaeth Tân wedi wynebu cynnydd sylweddol mewn costau oherwydd dyfarniadau cyflog, cynnydd cyffredinol mewn prisiau a chyfraniadau pensiwn uwch.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Gwasanaeth Tân ar gyfer y cyfnod rhwng 2026 a 2030 yn nodi y bydd angen cynnydd o 4% yn y gyllideb ar gyfer 2027/28, a chynnydd pellach o 6.2% a 6.6% yn y ddwy flynedd ddilynol. Mae'r cynllun hefyd yn nodi y bydd angen gwneud £0.56m o arbedion yn ystod y 3 blynedd, ynghyd â defnyddio £2.85m o gronfeydd wrth gefn.

At ddibenion y cynllun, mae chwyddiant + 1% wedi'i gynnwys fel amcangyfrif o'r cynnydd yn yr ardoll.

xiv. Pwysau Arall ar Wasanaethau

Mae'r strwythur uwch reoli cyffredinol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r Pennaeth Digidol, Trawsnewid a Moderneiddio yn swydd a ychwanegwyd i'r strwythur yn 2026/27, ond roedd yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn glustnodedig. Mae angen ychwanegu cost y swydd i'r gyllideb barhaol yn awr. Mae'r adolygiad wedi nodi gofyniad posib am ddau bennaeth gwasanaeth ychwanegol, er nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto. Mae'r cynllun yn cynnwys cyllid ar gyfer y ddwy swydd newydd.

Yn 2027/28, bydd hefyd angen cyllido etholiadau'r Cyngor a gynhelir ym mis Mai. Mae £240k wedi'i gynnwys yn y gyllideb i gwrdd â'r costau unwaith ac am byth ychwanegol yma.


xv. Chwyddiant Cyffredinol ar Brisiau

Mae cyllidebau blynyddol nad ydynt yn gyllidebau cyflogau yn cynyddu bob blwyddyn er mwyn caniatáu ar gyfer chwyddiant cyffredinol neu benodol. Os nad yw contractau'n nodi pa fynegai prisiau penodol y dylid ei defnyddio, neu os nad yw pennawd gwariant penodol yn profi cyfradd chwyddiant sylweddol uwch neu is, yna defnyddir y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) fel ffactor chwyddiant. Ers nifer o flynyddoedd, mae'r CPI wedi aros yn isel ac nid yw wedi bod yn ffactor sylweddol wrth benderfynu ar y gyllideb. Fodd bynnag, cododd chwyddiant yn sylweddol yn 2022, gan gyrraedd ei lefel uchaf o 11% yn Hydref 2022, cyn gostwng o dan darged Bof E o 2% ym mis Medi 2024 a chynyddu eto yn ystod 2025, cyn disgyn yn ôl i'r gyfradd bresennol o 2.6%.

Gan fod y rhyfel yn y Dwyrain Canol yn debygol o barhau, bydd cynnydd mewn prisiau ynni yn gyrru cynnydd mewn chwyddiant yn ystod diwedd yr haf a dechrau hydref 2026. Os daw'r rhyfel i ben, dylai chwyddiant ddechrau gostwng yn 2027 ond os bydd y rhyfel yn parhau, mae chwyddiant yn debygol o barhau i godi yn gynnar yn 2027 a bydd yn cymryd mwy o amser i ostwng.

Mae'r siart isod yn dangos rhagolygon presennol BofE a'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol:-

Siart 1
Rhagolwg o Lefelau Chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) hyd at Fawrth 2030



Bydd cynnydd cyffredinol yn lefel chwyddiant yn effeithio ar oddeutu £50m o gyllideb y Cyngor. Caniatawyd 3.2% ar gyfer 2027/28, a 2% ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol.

xvi. Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor

Mae'r Gwasanaethau Tai yn defnyddio elfen o bremiwm y Dreth Gyngor a godir ar gartrefi gwag ac ail gartrefi er mwyn rhoi benthyciadau a grantiau i ymgeiswyr cymwys i'w helpu i brynu a / neu adnewyddu cartref ar Ynys Môn. Gosodwyd cyllideb o £1.05m ar gyfer 2026/27. Mae unrhyw danwariant yn y gyllideb hon yn cael ei ddal fel cronfa wrth gefn glustnodedig. Mae'r cynllun yn cynnwys cynnydd yn y gyllideb o £1.05m, yn unol â'r cynnydd a ragwelir yn y Dreth Gyngor bob blwyddyn. Dylid nodi bod LIC ar hyn o bryd yn ymgynghori ar newidiadau i'r rheoliadau'n ymwneud â phremiwm y Dreth Gyngor a gallai hyn effeithio ar lefel yr incwm a gynhyrchir o'r premiwm yn y dyfodol.

6. INCWM

- 6.1.** Mae cyfanswm cyllideb incwm bresennol y Cyngor (heb gynnwys CAC, y Dreth Gyngor a chyllid grant penodol) yn £57.0m. Mae'n cynnwys grantiau ac ad-daliadau gan gyrff cyhoeddus (£30.4m), ffioedd a thaliadau a bennir gan statud neu a reoleiddir gan y Llywodraeth (£8.0m), ffioedd a thaliadau a bennir gan y Cyngor (£7.6m), cytundebau rhent hirdymor mewn perthynas â thir ac eiddo (£1.8m) ac ail-godi tâl o fewn y Cyngor ar wasanaethau eraill y Cyngor (£9.2m).
- 6.2.** Polisi'r Cyngor oedd cynyddu ffioedd a thaliadau dewisol gan 3% bob blwyddyn, ond mae cynnydd uwch yn y ffioedd a thaliadau mewn rhai gwasanaethau wedi golygu bod ffioedd y Cyngor wedi symud yn llawer agosach at y ffioedd a godir gan y sector preifat, e.e. gwasanaethau hamdden. At ddibenion y cynllun hwn, y rhagdybiaeth yw y bydd ffioedd a thaliadau dewisol yn parhau i godi 3% y flwyddyn yn ystod cyfnod y cynllun.
- 6.3.** Nid yw ffioedd a reolir gan statud neu LIC bob amser yn codi, neu'r mae'r cynnydd yn is na chwyddiant. Os yw'r cynnydd yn uwch na chwyddiant, mae'n bosib bod gofynion penodol ynghlwm ag o, e.e. bydd cynnydd arfaethedig yn y ffioedd cynllunio'n golygu y bydd rhaid i'r Cyngor fuddsoddi mwy o gyllid yn y gwasanaeth er mwyn gwella'r gwasanaeth a'i wytnwch. O ganlyniad, mae effaith net y cynnydd mewn ffioedd yn llawer llai.
- 6.4.** Yn ogystal ag incwm ffioedd a thaliadau, derbynnir incwm grantiau sylweddol. Gall y grantiau a dderbynnir fod ar gyfer cyllido prosiectau neu wasanaethau penodol, tra bod eraill yn fwy cyffredinol eu natur ac yn cefnogi gwasanaethau craidd. O ystyried sefyllfa ansicr cyllid y sector cyhoeddus, mae risg y bydd grantiau'n cael eu targedu a'u lleihau er mwyn lleihau gwariant cyhoeddus, yn hytrach na gostwng y setliad ariannol cyffredinol y mae'r Cyngor yn ei dderbyn gan LLC. Yn achos grantiau sy'n cyllido prosiectau penodol, mae'n bosibl dirwyn y prosiect i ben os daw'r grant i ben, ond mae hyn yn anoddach pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu drwy gyfuniad o gyllideb graidd a grantiau.

7. CYLLIDEB RHAGAMCANOL AR GYFER 2027/28 - 2029/30

- 7.1.** Trwy ystyried yr holl faterion y manylwyd arnynt ym mharagraffau 5 a 6, a defnyddio'r rhagdybiaethau a nodir yn Atodiad 2, mae'n bosibl amcangyfrif y gyllideb refeniw ar gyfer y 3 blynedd nesaf. Mae i'w gweld yn Nhabl 8 isod:-

Tabl 8
Cyllideb Gwariant Refeniw Net Ragamcanol 2026/27 - 2028/29

	2027/28 £'m		2028/29 £'m		2029/30 £'m	
Cyllideb Derfynol y Flwyddyn Flaenorol		207.029		215.531		221.145
Pwysau Chwyddiant						
Dyfarniad Cyflog Staff nad ydynt yn Athrawon	2.215		1.435		1.557	
Dyfarniad Cyflog Athrawon	(1.692)		1.066		0.905	
Contractau Gwasanaeth Mawr	0.977		0.531		0.543	
Chwyddiant Ynni	0.156		0.163		0.172	
Chwyddiant Arall nad yw'n gysylltiedig â Chyflogau	1.376		1.235		1.261	
Incwm	(1.011)		(1.545)		(1.586)	
Chwyddiant Darparwyr Gofal Cymdeithasol	2.238		1.240		1.513	
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - Cynnydd yn y Dreth Gyngor	0.397		0.250		0.215	
Ardoll y Gwasanaeth Tân	0.218		0.170		0.175	
Cyfanswm Pwysau Chwyddiant		4.874		4.545		4.755
Pwysau oherwydd y galw						
Galw yn y Gwasanaethau Plant	0.459		0.289		0.298	
Galw yn y Gwasanaethau Oedolion	1.080		0.977		0.390	
Niferoedd Disgyblion	0.039		(0.464)		(0.447)	
Cludiant Ysgol	0.038		0.039		0.039	
Anghenion Dysgu Ychwanegol	0.173		0.119		0.121	
Digartrefedd	0.023		0.023		0.024	
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - Newid yn yr Amcangyfrif o'r Achosion	0.000		0.000		0.000	
Buddsoddi mewn Gwasanaethau Eraill	0.712		(0.340)		0.000	
		2.524		0.643		0.425
Costau Eraill						
Cyllido Cyfalaf	1.051		0.393		0.630	
Defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer Prosiectau Tai	0.053		0.033		0.028	
Cyfanswm Costau Eraill		1.104		0.426		0.658
Amcangyfrif o'r Gyllideb Refeniw Net		215.531		221.145		226.983
Cynnydd Blynnyddol		8.502		5.614		5.838
Canran Cynnydd Blynnyddol		4.11%		2.60%		2.64%

- 7.2. Mae'r Gyllideb Refeniw Net a amcangyfrifir yn cynrychioli cynnydd o 9.6% dros y 3 blynedd.
- 7.3. Mae rhagor o fanylion am y Gyllideb Refeniw Net a amcangyfrifir a'r rhagdybiaethau sy'n cefnogi'r cynllun ynghlwm yn Atodiad 2 a 3.
- 7.4. Mae'r ffigyrau uchod yn seiliedig ar y senario fwyaf tebygol ar gyfer yr holl ragdybiaethau. Mae'r senario gorau a gwaethaf wedi cael eu modelu hefyd. Mae'r modelau hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaethau mwyaf gobeithiol a phesimistaidd ar gyfer pob pennawd gwariant. Dangosir canlyniadau'r ymarfer modelu yn Nhabl 9 isod:-

Tabl 9
Modelau Senarios Gorau a Gwaethaf 2027/28 - 2029/30

	Senario Orau	Cynnydd		Senario Waethaf	Cynnydd	
	£'m	£'m	%	£'m	£'m	%
Cyllideb Sylfaenol 2026/27	207.029			207.029		
Amcangyfrif o Gyllideb 2027/28	206.971	(0.058)	(0.03%)	224.114	17.085	8.25%
Amcangyfrif o Gyllideb 2028/29	208.352	1.381	0.66%	236.547	12.433	5.55%
Amcangyfrif o Gyllideb 2029/30	210.047	1.695	0.81%	249.748	13.201	5.58%

- 7.5. Mae'r 3 senario, gorau, gwaethaf a mwyaf tebygol, yn rhoi ystod eang o amcangyfrifon o'r gyllideb refeniw net ofynnol ar gyfer y tair blynedd nesaf, ac mae'n dangos y lefel sylweddol o ansicrwydd sy'n bodoli mewn perthynas â chwyddiant, yn enwedig cyflogau a'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Mae hyn yn gwneud cynllunio ariannol yn anodd iawn.

8. DADANSODDIAD O SENSITIFRWYDD

- 8.1. Mae'r sefyllfa ariannol amcangyfrifedig a ddangosir yn Nhabl 8, uchod, yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch nifer o ffactorau. Dengys Tabl 10 isod y newid yn y gyllideb gwariant net fyddai'n deillio pe byddai 1% o amrywiant ym mhob rhagdybiaeth:-

Tabl 10
Effaith Ariannol Newid o 1% yn Rhagdybiaethau'r Gyllideb Ariannol

Rhagdybiaeth	Effaith newid o 1% £'000
Dyfarniad Cyflog NJC	723
Dyfarniad Cyflog Athrawon	436
Chwyddiant Cyffredinol	453
Chwyddiant Prif Gontractau Gwasanaeth	255
Chwyddiant Darparwyr Gofal Cymdeithasol	522
Incwm	153
Cyfradd Llog a Dderbynnir	130
Cyllid Allanol Cyfun	1,446
Treth y Cyngor (heb gynnwys Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor)	529
Galw am Leoliadau Plant	91
Galw am Leoliadau Gwasanaethau Oedolion	280
Digartrefedd	12
Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	77

9. CYLLID ALLANOL CYFUN A'R DRETH GYNGOR

- 9.1.** Cyllidir y gyllideb ddisymud a amcangyfrifir o'r CAC a dderbynnir gan LIC (Grant Cymorth Refeniw a Chyllid Cyfun Trethi Annomestig) ac o'r Dreth Gyngor a godir yn lleol.
- 9.2.** Ar hyn o bryd, nid oes arwydd o lefel y CAC yn ystod y 3 blynedd nesaf, ond mae dadansoddiad gan Dadansoddi Cyllid Cymru wedi cyfrifo y bydd cynnydd o 0.7% yng nghyllideb cyffredinol Cymru mewn termau real bob blwyddyn. Mae'n awgrymu hefyd y byddai cynnydd o 1.8% y flwyddyn mewn termau real yng ngwariant y GIG yn golygu y byddai angen gostyngiad o 0.6% mewn termau real mewn cyllidebau eraill. Pe byddai gwariant y GIG yn cynyddu 3.6% mewn termau real (y cyfartaledd hanesyddol), yna byddai angen i gyllidebau eraill ostwng 2.7% mewn termau real.
- 9.3.** Ar sail rhagolwg o gynnydd o 2.2% mewn chwyddiant yn 2027/28 a 2% yn y ddwy flynedd ddilynol, byddai cynnydd o 1.6% mewn termau arian parod yn 2027/28 a 1.4% yn 2028/29 a 2029/30. Mae'r sefyllfa yn 2027/28 yn cael ei chymhlethu ymhellach gan ostyngiad yn yr CAC fydd yn digwydd yn 2027/28 o ganlyniad i newid cyfraddau cyfraniad y cyflogwr at bensiynau athrawon a'r posibilrwydd o gynnwys cyllid ADY ychwanegol yn y gyllideb. Ar ôl ystyried y newidiadau hyn, rhagwelir cynnydd o 1.2% yn y CAC mewn termau ariannol yn 2027/28, ac yna cynnydd o 2% yn 2028/29 a 2.5% yn 2029/30.
- 9.4.** Yn 2026/27, derbyniodd Ynys Môn £144.584m o CAC gan LIC. Ar sail y rhagdybiaethau hyn, byddai'r CAC yn codi i £146.312m yn 2027/28, i £149.238m yn 2028/29 a £152.969m yn 2029/30, ond nid yw'r ffigyrau hyn yn ystyried unrhyw addasiadau sy'n codi o'r fformiwla ddosbarthu neu effaith unrhyw newidiadau yn sylfaen y dreth.
- 9.5.** Tâl Band D Ynys Môn ar gyfer 2026/27 oedd yr 16eg uchaf allan o'r 22 awdurdod yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw cymharu'r tâl Band D yn unig yn rhoi cymhariaeth wirioneddol gan nad yw'n ystyried faint o eiddo sydd ym mhob band. Mae awdurdodau sydd â nifer uchel o eiddo ym Mand A a B yn tueddu i fod â thâl Band D uwch er mwyn cynhyrchu digon o incwm.
- 9.6.** Drwy gymharu gwerth sylfaen y dreth fel canran o'r anheddau trethadwy, mae ffigwr Ynys Môn yn debyg i Sir y Fflint, Gwynedd a Cheredigion, sef tua 96% i 100%, ond mae tâl Band D Ynys Môn £128 yn is na Sir y Fflint, £214 yn is na Gwynedd a £184 yn is na Cheredigion. Awgryma hyn fod tâl Band D Ynys Môn yn rhy isel ac mae rhywfaint o hyblygrwydd i gynyddu'r tâl. Mae pob cynnydd o 1% yn y tâl Band D yn golygu cynnydd o £18 yn y gost. Byddai cynyddu'r tâl Band D i'r un lefel â Sir y Fflint yn creu £4.24m ychwanegol o refeniw'r Dreth Gyngor, £7.10m pe bai'r tâl ar lefel Gwynedd a £6.1m pe bai'r tâl yn unol â Cheredigion.

10. PREMIWM Y DRETH GYNGOR

- 10.1.** Ers 2024/25, mae premiwm y dreth gyngor o 100% yn cael ei godi ar dai gwag ac ail gartrefi, a chynhyrchodd hyn gyllideb incwm o £4.76m yn 2026/27. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan LIC i gefnogi'r ddeddfwriaeth yn datgan:-
- Gall awdurdodau ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at unrhyw ddiben, ond fe'u hanogir i'w ddefnyddio er mwyn helpu i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.*
- 10.2.** Mae'r Cyngor wedi dyrannu £1.05m ar gyfer cyllido prosiectau a ddyluniwyd yn benodol i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf lleol, yn ogystal â dyrannu cyllid i weinyddu'r prosiectau, casglu'r premiwm, adnabod incwm posib a gollir oherwydd twyll a thuag at gynyddu capasiti'r tîm datblygu economaidd. Mae hefyd yn caniatáu i'r Cyngor cyllido, yn anuniongyrchol, effaith nifer uchel o ail gartrefi yn yr ardal trwy sybsideiddio ysgolion bach, delio ag effaith lefelau uchel o dwristiaeth ac unrhyw densiynau cymunedol sy'n deillio o dwristiaeth.
- 10.3.** Mae LIC bellach wedi rhoi'r grym i awdurdodau lleol yng Nghymru godi premiwm o hyd at 300% ond, hyd yma, nid oes yr un Cyngor yng Nghymru wedi codi'r premiwm i'r lefel hwn.

- 10.4.** Nid yw'n fwriad ar hyn o bryd addasu'r premiwm ail gartrefi, ond mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cytuno i gynyddu'r premiwm tai gwag yn raddol, yn ôl y cyfnod o amser y bu'r eiddo'n wag, fel y dangosir yn Nhabl 11 isod.

Tabl 11
Premiwm Tai Gwag o fis Ebrill 2026

Nifer o flynyddoedd yn wag o Ebrill 2026	Premiwm a godir
Llai na 5 mlynedd	100%
Rhwng 5 a 6 mlynedd	125%
Rhwng 6 a 7 mlynedd	150%
Rhwng 7 a 8 mlynedd	175%
Rhwng 8 a 9 mlynedd	200%
Rhwng 9 a 10 mlynedd	250%
Dros 10 mlynedd	300%

- 10.5.** Amcangyfrifir y bydd y newid yn cynhyrchu £400k yn ychwanegol yn ystod y flwyddyn gyntaf, os na fydd unrhyw eiddo'n dod yn ôl i ddefnydd, a bydd y swm yn cynyddu bob blwyddyn wrth i fwy o eiddo orfod talu premiwm uwch. Fodd bynnag, bwriad y newid yw annog perchnogion eiddo i ddod a'u heiddo'n ôl i ddefnydd ac, o ganlyniad, gallai olygu mewn gwirionedd fod nifer yr eiddo gwag yn gostwng gan olygu fod yr incwm a gynhyrchir yn gostwng hefyd. O ganlyniad, mae'r cynllun yn rhagdybio na fydd lefel yr incwm yn newid yn ystod y 3 blynedd nesaf.
- 10.6.** Ym mis Ebrill 2023, cyflwynwyd rheolau newydd ar gyfer llety hunanarlwyo sy'n talu trethi busnes yn hytrach na'r Dreth Gyngor, ond dim ond yn awr mae'r newidiadau'n digwydd a'r eiddo'n trosglwyddo'n ôl o'r gofrestr trethi busnes i'r gofrestr Dreth Gyngor, gan olygu eu bod yn gorfod talu'r premiwm ar ail gartrefi. Mae rhwng 150 a 200 eiddo wedi dychwelyd i'r gofrestr Dreth Gyngor, er bod nifer o berchnogion yr eiddo dan sylw wedi apelio ac mae'n bosib y byddant yn cael eu symud yn ôl i'r gofrestr trethi annomestig yn y dyfodol. Mae hyn yn creu lefel sylweddol o ansicrwydd ynglŷn â sylfaen y dreth a gallai gynhyrchu mwy o incwm yn barhaol, h.y. pe byddai 200 eiddo Band D yn dychwelyd i'r gofrestr Dreth Gyngor ac yn talu premiwm, byddai'n creu oddeutu £680k o incwm ychwanegol. Unwaith eto, at ddibenion y cynllun hwn, ni ystyrir y bydd y newid hwn yn effeithio ar lefelau incwm yn ystod cyfnod y cynllun.

11. BALANSAU CYFFREDINOL A CHRONFEYDD WRTH GEFN

- 11.1.** Mae'r Cyngor yn dal digon o gyllid yn ei falansau cyffredinol i dalu am unrhyw wariant annisgwyl a allai godi yn ystod y flwyddyn na ellir ei gyllido o'r gyllideb refeniw neu gyfalaf bresennol. Yn ogystal â hyn, mae gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn clustnodedig ar gyfer costau risgiau posibl, costau prosiectau a gynlluniwyd yn y dyfodol ac i ddal cyllid grant sydd heb ei ddefnyddio, neu unrhyw symiau eraill o gyllid sydd gan y Cyngor sydd â chyfyngiad arnynt.
- 11.2.** Ar 31 Mawrth 2026, roedd gan y Cyngor £19.038m o falansau cyffredinol a £25.042m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig. Mae'r Cyngor wedi cytuno ar strategaeth ar gyfer balansau cyffredinol, sef cadw isafswm o 5% o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y flwyddyn. Felly, yn 2026/27, bydd angen balans cyffredinol o £10.35m neu fwy. Pan osodwyd cyllideb 2026/27, defnyddiwyd £1.685m o falansau cyffredinol i gydbwyso'r gyllideb ac mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo defnyddio swm ychwanegol o £1.763m i gyllido prosiectau cyfalaf a refeniw unwaith ac am byth. Mae hyn yn golygu bod y balansau cyffredinol yn gostwng i £15.59m, sef £5.24m yn uwch na'r isafswm balans gofynnol. Fodd bynnag, dylid nodi y byddai unrhyw orwariant yng nghyllideb refeniw 2026/27 yn cael ei gyllido o'r balansau cyffredinol. Mae'r rhagolwg ar ddiwedd chwarter 1 2026/27 yn amcangyfrif tanwariant o £2.114m yn y gyllideb refeniw. Y balans a ragwelir, felly, yw £17.704m, sef £7.437m yn uwch na'r lleiafswm.

- 11.3.** Cynhaliwyd arolwg o'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2025/26, a throsglwyddwyd £1.43m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor. Mae'r cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn cynnwys £8.9m o gronfeydd wrth gefn ar gyfer risgiau penodol a nodwyd megis chwyddiant, colledion nad oes yswiriant ar eu cyfer a chynnydd yn y galw am wasanaethau penodol. Byddai'n bosib rhyddhau'r cronfeydd wrth gefn hyn yn ôl i'r balansau cyffredinol, ond byddai hyn yn gwanhau sefyllfa ariannol y Cyngor oherwydd byddai'n rhaid cyllido'r gost ariannol o'r balansau cyffredinol pe gwireddwyd y risgiau hyn.

12. YSGOLION

- 12.1.** Mae'r gyllideb ddatganoledig ysgolion yn elfen bwysig o gyllideb gyffredinol y Cyngor, ac mae 27.7% o'r gyllideb net gyffredinol yn cael ei dyrannu i ysgolion. Mae ysgolion hefyd yn cadw unrhyw gyllid sy'n weddill yn eu cronfeydd wrth gefn eu hunain, ac mae lefel y cronfeydd wrth gefn yn arwydd da o'r pwysau ariannol sy'n wynebu ysgolion. Dengys Tabl 12 isod lefel balansau ysgolion ar 31 Mawrth 2026 a'r balans a ragwelir ar 31 Mawrth 2027, wedi i ysgolion ddyrannu cronfeydd wrth gefn i gydbwyso cyllideb 2026/27:-

Tabl 12

Balansau Ysgolion ar 31 Mawrth 2025 a Rhagolwg o Falansau ar 31 Mawrth 2026

	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Cyfanswm
Balans ar 31 Mawrth 2026	£1,942,402	£2,118,961	£265,920	£4,327,283
Defnyddiwyd i Gydbwyso Cyllideb 2026/27	(£552,461)	(£1,321,490)	(£51,770)	(£1,925,721)
Amcangyfrif o'r Balans ar 31 Mawrth 2027	£1,389,941	£797,471	£214,150	£2,401,562
Nifer o Ysgolion mewn Diffyg ar 31 Mawrth 2026	6	0	0	4
Nifer Ysgolion a amcangyfrifir iddynt fod mewn Diffyg ar 31 Mawrth 2027	7	1	0	4

- 12.2.** Mae'r balans cyffredinol yn rhoi syniad bras, ond mae'n rhaid ystyried ffactorau eraill wrth benderfynu ar iechyd ariannol pob ysgol. Mae'r ffactorau hyn yn cynnwys maint yr ysgol a'r tuedd yn y balans dros nifer o flynyddoedd. Mae Tabl 13, isod, yn darparu asesiad cryno o'r ysgolion:-

Tabl 13

Crynodeb o Iechyd Ariannol Ysgolion ar 31 Mawrth 2025 a 31 Mawrth 2026

Ar 31 Mawrth 2026				
	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Cyfanswm
Iach	5	0	1	6
Sefydlog a balans digonol	7	1	0	8
Gwaethygu ond balans digonol	13	3	0	16
Gwella ond balans isel	1	0	0	1
Balans yn parhau'n isel ond ddim yn ddifrifol	3	0	0	3
Gwaethygu ac yn dod yn ddifrifol	2	1	0	3
Difrifol	7	0	0	7
Cyfanswm	38	5	1	44

Ar 31 Mawrth 2027				
	Cynradd	Uwchradd	Arbennig	Cyfanswm
Iach	4	0	1	5
Sefydlog a balans digonol	7	1	0	8
Gwaethygu ond balans digonol	11	3	0	14
Gwella ond balans isel	0	0	0	0
Balans yn parhau'n isel ond ddim yn ddifrifol	5	0	0	5
Gwaethygu ac yn dod yn ddifrifol	4	1	0	5
Difrifol	7	0	0	7
Cyfanswm	38	5	1	44

- 12.3.** Mae Tabl 12 yn cadarnhau bod sefyllfa ariannol ysgolion yn dda at ei gilydd, er bod y sefyllfa'n amrywio o ysgol i ysgol. Mae Tabl 13 yn cadarnhau bod iechyd ariannol ysgolion yn gwaethygu ychydig, ac ystyrir mai dim ond 5 ysgol fydd mewn sefyllfa ariannol iach ym Mawrth 2027, o gymharu â 6 ym Mawrth 2026. Yn ogystal, mae 12 ysgol mewn perygl o fod mewn sefyllfa ariannol ddifrifol yn y tymor byr i ganolog, o gymharu â 10 ym Mawrth 2026.

13. PONTIO'R BWLCH CYLLIDO

- 13.1.** Os yw'r modelu ariannol yn gywir, yna bydd angen swm ychwanegol o £8.5m i gwrdd â phwysau chwyddiant wrth ddarparu gwasanaethau presennol a chwrdd â chynnydd yn y galw yn 2027/28, er y dylid nodi fod y ffigwr hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau fydd angen eu hadolygu wrth i'r broses gyllidebol fynd rhagddi. Ar sail y rhagdybiaethau uchod, mae Tabl 14 yn dangos y sefyllfa gyllidebol bresennol yn ystod y tair blynedd o'r cynllun:-

Tabl 14
Amcangyfrif o'r Diffyg Cyllido 2027/28 - 2029/30

	2027/28 £'m		2028/29 £'m		2029/30 £'m	
Diffyg Cyllidebol (yn unol â Thabl 8)		8.502		5.614		5.838
Cynnydd yn y CAC	(1.727)		(2.926)		(3.731)	
Cynnydd yn y Dreth Gyngor	(3.035)		(1.914)		(1.643)	
Cyllid Ychwanegol		(4.761)		(4.840)		(5.374)
		3.741		0.774		0.464
Cronfeydd Wrth Gefn a Ddefnyddiwyd i Gydbwyso Cyllideb y Flwyddyn Flaenorol		1.685		0.000		0.000
Amcangyfrif o'r Diffyg Cyllidebol ar ôl cyllido		5.426		0.774		0.464
Rhagdybiaeth o gynnydd yn yr CAC		+ 1.2%		+2.0%		2.5%
Rhagdybiaeth o Gynnydd yn y Dreth Gyngor		+ 5.0%		+3.0%		2.5%

- 13.2.** Os na fyddai'r CAC yn cynyddu, byddai angen cynnydd o 14.0% yn y Dreth Gyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2027/28. Byddai hyn yn gynydd blynyddol o £251, a byddai Dreth Gyngor Ynys Môn yr 8fed uchaf yng Nghymru, gan dybio y byddai pob Cyngor arall yn cynyddu'r dreth gan 5% yn 2027/28.
- 13.3.** Fel y gwelir ym mharagraff 11, mae gan y Cyngor rywfaint o hyblygrwydd i ddefnyddio balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn i leihau'r bwlch cyllido, ond mae risgiau'n gysylltiedig â defnyddio cronfeydd wrth gefn gan nad ydynt yn ffynhonnell incwm sydd ar gael flwyddyn ar ôl blwyddyn ac nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn osgoi'r angen i bontio'r bwlch cyllido yn y tymor hir. Yn ogystal, wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn mae cronfeydd wrth gefn ariannol y Cyngor yn lleihau ac mae ei sefyllfa ariannol yn gwanhau. Rhaid gofalu nad yw lefel y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir yn golygu nad oes gan y Cyngor ddigon o gyllid i gwrdd â gwariant annisgwyl, neu fynd i'r afael ag unrhyw risgiau posib os ydynt yn cael eu gwireddu ac angen gweithred a chyllid.
- 13.4.** Er bod sefyllfa ariannol ysgolion yn gwaethygu, dengys Paragraff 12 bod gan ysgolion rhywfaint o le i gyfrannu at y targed arbedion. Mae'r model ariannol yn gostwng y gyllideb ddatganoledig i ysgolion i £56.39m, sef 1.8% o ostyngiad mewn termau ariannol. Y rheswm pennaf am hyn yw gostyngiad yng nghyfraniadau'r cyflogwr at y cynllun pensiwn athrawon, gyda 2% o ostyngiad yn y gyllideb hon yn creu £1.13m o arbedion. Bydd hyn yn ei gwneud yn anoddach i ysgolion unigol gydbwyso eu cyllideb yn 2026/27, yn enwedig ysgolion llai lle ceir llai o hyblygrwydd mewn perthynas â maint dosbarthiadau.
- 13.5.** Y dewis arall yw gostwng y gyllideb wariant net ac, o ystyried bod rhwng £1.3m a £4.8m o danwariant yn ystod y 5 mlynedd ariannol ddiwethaf, mae'n ymddangos bod rhywfaint o le i dorri cyllidebau ymhellach.
- 13.6.** Unwaith eto, gan ragdybio bod y bwlch cyllido yn £5.426m, mae hyn gyfystyr ag arbedion refeniw o 2.6% o gyllideb wariant net 2026/27. Fodd bynnag, mae'r gyllideb refeniw net yn cynnwys nifer o gyllidebau y mae'n rhaid eu cyllido er nad yw'r Cyngor yn gallu eu rheoli. Maent yn cynnwys:-
- Ardoll y Gwasanaeth Tân - £5.36m yn 2026/27;
 - Ardoll y Cyd-bwyllgor Corfforedig - £0.08m yn 2026/27;
 - Costau Cyllido Cyfalaf - £5.86m yn 2026/27;
 - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor - £7.93m yn 2026/27;
 - Costau Pensiwn Hanesyddol - £1.03m yn 2026/27;
 - Lwfansau Aelodau - £1.28m yn 2026/27;
 - Ffioedd Archwilio ac Arolygu - £0.46m yn 2026/27;
 - Costau Crwner - £0.32 yn 2026/27.
- 13.7.** Yn ogystal, os gosodir cap ar y gyllideb ysgolion, ni fydd yn bosib cynnwys y gyllideb ysgolion mewn unrhyw dargedau arbedion pellach. Felly, bydd rhaid canfod unrhyw arbedion o'r cyllidebau sy'n weddill (£127.29m yn 2026/27), ac mae hyn gyfystyr ag arbedion o 4.3% o'r cyllidebau lle mae'n bosib gwneud arbedion.
- 13.8.** Mae tua 85% o wariant y Cyngor yn mynd ar wasanaethau statudol, a 3% arall ar wasanaethau rhannol statudol. O'r 12% sy'n weddill, mae 9% yn cael ei wario ar wasanaethau cefnogi, a dim ond 3% sy'n cael ei wario ar wasanaethau anstatudol. Mae'n anodd gostwng gwariant ar wasanaethau statudol a'r unig ffordd o wneud hynny yw trwy ddarparu'r gwasanaeth yn fwy effeithlon neu leihau lefel y gwasanaeth a ddarperir a ddarparu'r isafswm a ddiffiniwyd yn unig.
- 13.9.** Mae'r gwaith o nodi arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gweithredu wedi dechrau ond, o ystyried y toriadau blaenorol oherwydd cynni ariannol a chynnydd yn y galw am wasanaethau, nid yw Gwasanaethau wedi darganfod unrhyw arbedion effeithlonrwydd sylweddol y gellir eu cynhyrchu. Yr unig ffordd o greu arbedion yw trwy leihau gwasanaethau neu roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau.

- 13.10.** Ar sail y rhagolwg hwn, mae Tabl 15, isod, yn dangos y dangosydd gwytnwch ariannol sy'n penderfynu'r bwlch cyllido fel canran o'r gwariant refeniw net:-

Tabl 15
Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido fel Canran o Wariant Refeniw Net

Blwyddyn	Cyllideb Ddisymud	CAC	Y Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol (Nodyn 1)	Cyfanswm Cyllid Cyn Cynyddu'r Dreth Gyngor	Amcangyfrif o'r Bwlch Cyllido	% Bwlch
	£'m	£'m	£'m	£'m	£'m	
2018/19	132.337	94.924	33.644	128.568	3.769	2.85%
2019/20	134.702	95.159	35.087	130.246	7.156	5.21%
2020/21	142.203	101.005	39.370	140.375	1.828	1.29%
2021/22	147.076	104.825	41.161	145.986	1.090	0.74%
2022/23	155.501	114.549	42.957	157.506	(2.005)	(1.29%)
2023/24	173.830	123.665	44.879	168.544	5.286	3.04%
2024/25	188.992	127.586	47.628	175.214	13.778	7.29%
2025/26	199.025	135.605	52.628	188.233	10.792	5.42%
2026/27	206.773	144.579	57.810	202.389	4.384	2.12%
Rhagolwg 2027/28 (Nodyn 2)	215.531	146.311	63.794	210.105	5.426	2.52%
Rhagolwg 2028/29 (Nodyn 2)	215.719	149.237	65.708	214.945	0.772	0.36%
Rhagolwg 2028/29	220.783	152.968	67.351	220.320	0.464	0.21%
Nodyn 1 - Mae ffigyrau'r Dreth Gyngor y Flwyddyn Flaenorol wedi'u haddasu i ystyried newidiadau yn sylfaen y dreth						
Nodyn 2 - Mae'r gyllideb ddisymyd ar gyfer 2027/28 a 2028/29 yn cynnwys rhagdybiaeth bod y gyllideb derfynol ar gyfer 2026/27 yn cael ei hadolygu a'i bod yn gostwng i gyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael						

- 13.11.** Er bod y sefyllfa yn 2027/28 ychydig yn well na'r sefyllfa yn 2025/26 ac yn debyg i'r sefyllfa yn 2026/27, mae'n parhau i fod yn flwyddyn ariannol hynod o heriol o ran gosod y gyllideb, gan fod unrhyw arbedion effeithlonrwydd wedi cael eu gwireddu yn y gorffennol. Mae'r sefyllfa'n dechrau gwella yn 2028/29, ond mae'n ddibynnol ar chwyddiant a dyfarniadau cyflog aros yn isel, y galw am wasanaethau aros yr un fath, nodi a gwireddu arbedion gwasanaeth a byddai angen i'r setliad i lywodraeth leol gynyddu o leiaf yn unol â chwyddiant.

14. CASGLIADAU

- 14.1.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn darparu amcangyfrif o'r gyllideb refeniw net ar gyfer y 3 blynedd nesaf gan ddefnyddio nifer o ragdybiaethau, ac mae rhai ohonynt yn fwy sicr na'i gilydd. Mae'r cynllun yn caniatáu i'r Cyngor benderfynu ar ei strategaeth cyllido yn y dyfodol, ond mae nifer o faterion yn creu mwy o ansicrwydd ynghylch y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys amcangyfrif costau'r dyfodol ar adeg pan nad yw dyfarniadau cyflog ar gyfer y flwyddyn bresennol wedi'u cytuno eto, amcangyfrif y galw am wasanaethau, effaith yr argyfwng costau byw ar y galw am wasanaethau'r Cyngor, cyllid Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol yn dilyn penodi Prif Weinidog newydd i y DU ac etholiadau LIC, a'r ffaith fod y LIC bresennol yn llywodraeth leiafrifol. Mae lefel y gefnogaeth gan LIC yn elfen allweddol o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ac mae diffyg rhagolygon cywir o lefelau cyllido yn y dyfodol yn effeithio ar lefel y sicrwydd y gall y cynllun ei ddarparu.

- 14.2.** Bydd y galw am wasanaethau statudol a'r pwysau i gynyddu cyflogau rhai carfanau o weithlu'r Cyngor (gweithwyr y Cyngor ei hun a gweithwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau dan gcontract) yn cynyddu costau'n sylweddol, yn enwedig yn 2027/28. Os nad yw'r pwysau ychwanegol yn cael ei adlewyrchu yn y setliad cyllido gan LIC, yna bydd yn rhaid i'r Cyngor weithredu toriadau i wasanaethau a / neu bydd angen i'r cynnydd yn y Dreth Gyngor fod yn uwch na chwyddiant er mwyn gosod cyllideb gytbwys sy'n caniatáu i'r Cyngor gyflawni ei rwymedigaethau statudol ac sy'n adlewyrchu'n gywir gwir gostau darparu'r gwasanaethau hynny.
- 14.3.** Mae gan y Cyngor rywfaint o gronfeydd wrth gefn y gellir ei ddefnyddio yn 2027/28 i helpu i leihau'r bwlch cyllido posibl, ond mae'r cyllid y gellir ei ryddhau yn gyfyngedig ac ni fydd yn pontio'r bwlch cyfan. Os defnyddir cronfeydd wrth gefn, bydd hynny'n gwanhau gwydnwch ariannol y Cyngor a ni fydd ond yn gohirio'r angen i wneud arbedion cyllidebol neu gynyddu'r Dreth Gyngor. Erbyn diwedd cyfnod y cynllun, ac er mwyn datrys y sefyllfa ariannol bresennol, bydd rhaid canfod tua £7m o arbedion parhaol neu bydd angen cynnydd o £7m yn incwm y Dreth Gyngor, ar ben y cynnydd sydd eisoes wedi cael ei ragdybio.
- 14.4.** Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig hwn yn amlygu'r ffaith bod y Cyngor yn wynebu sefyllfa ariannol heriol ac ansicr arall ar hyn o bryd, a bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn gosod cyllideb gytbwys yn 2027/28 a thu hwnt.
- 14.5.** Rhaid ystyried cynyddu lefel y Dreth Gyngor gan fwy na lefel chwyddiant cyffredinol fel rhan o'r datrysiad ariannol tymor hir cyffredinol i gyllido'r diffyg ariannol. Mae'r gallu gan y Cyngor i wneud hynny wrth gymharu lefel y Dreth Gyngor â lefelau'r Dreth Gyngor mewn awdurdodau eraill tebyg / cyfagos.
- 14.6.** Ar gyfer 2027/28, fel yn y gorffennol, bydd angen cymysgedd o arbedion cyllidebol, cynnydd yn y Dreth Gyngor sy'n uwch na chwyddiant a defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus er mwyn gosod cyllideb gytbwys.

RHAGDYBIAETHAU'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG

Y SENARIO FWYAF TEBYGOL			
	2027/28	2028/29	2029/30
Chwyddiant Cyflogau a Phrisiau			
Cyflogau, YG a Chostau Pensiwn - Staff nad ydynt yn Athrawon	3.0%	2.0%	2.0%
Cyflogau, YG a Chostau Pensiwn - Athrawon	3.5%	2.5%	2.0%
Cyfradd Cyfraniadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	0.0%	0.0%	0.0%
Cyfradd Cyfraniadau Pensiynau Athrawon	-38.5%	0.0%	0.0%
Trydan	5.0%	5.0%	5.0%
Nwy	5.0%	5.0%	5.0%
CPI (gan gynnwys unrhyw gywiriad o'r flwyddyn flaenorol)	3.2%	2.0%	2.0%
Prif Gontractau Gwasanaeth	3.2%	2.0%	2.0%
Contractau Darparwyr Gofal Cymdeithasol	4.2%	2.5%	2.5%
Ffioedd a Thaliadau	3.0%	3.0%	3.0%
Y Dreth Gyngor	5.0%	3.0%	2.5%
Cyllid Allanol Cyfun	1.2%	2.0%	2.5%
Grantiau Llywodraeth	1.0%	3.0%	3.0%
Ardollau	4.0%	3.0%	3.0%
Costau Cyllido Cyfalaf	17.7%	5.7%	7.7%
Cynnydd yn y Galw			
Lleoliadau Plant	5.0%	3.0%	3.0%
Lleoliadau Gofal Cymdeithasol Oedolion	3.6%	2.0%	2.0%
Cludiant Ysgol	2.0%	2.0%	0.0%
Digartrefedd	2.0%	2.0%	0.0%
Achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor	0.0%	0.0%	0.0%
Anghenion Dysgu Ychwanegol	3.0%	2.0%	2.0%

CRYNODEB AMCANGYFRIF O'R GYLLIDEB REFENIW NET 2026/27 - 2029/30

	2026/27 £'m	2027/28 £'m	2028/29 £'m	2029/30 £'m
Cyflogau - Staff nad ydynt yn Athrawon, gan gynnwys Pensiynau ac YG	68.476	71.218	72.759	74.424
Cyflogau - Athrawon, gan gynnwys Pensiynau ac YG	43.580	41.927	42.528	42.986
Costau Gweithwyr Eraill	3.934	4.055	4.136	4.219
Costau Adeiladau	7.927	8.180	8.344	8.510
Ynni	3.112	3.267	3.430	3.602
Trafnidiaeth	1.296	1.337	1.364	1.391
Cyflenwadau a Gwasanaethau	29.923	31.018	31.561	32.359
Cludiant Ysgol	4.626	4.809	4.944	5.083
Prydau Ysgol	3.468	3.579	3.651	3.724
Lleoliadau Allsirol Addysg	0.864	0.899	0.926	0.954
Strategaeth ADY Addysg	2.527	2.603	2.656	2.709
Gofal Cymdeithasol Oedolion	39.435	42.116	43.917	45.382
Lleoliadau Gofal Plant	12.743	13.839	14.543	15.278
Casglu a Gwaredu Gwastraff	9.245	9.534	9.725	9.920
Cynnal a Chadw Priffyrdd a Goleuadau Stryd	5.755	6.110	6.232	6.357
Gwasanaeth Trafnidiaeth Bysiau Cyhoeddus	2.458	2.535	2.585	2.637
Cefnogaeth ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf	1.050	1.103	1.136	1.164
Digartrefedd	1.546	1.619	1.675	1.733
Lwfansau a Threuliau Aelodau	1.285	1.324	1.363	1.404
Crwneriaid	0.319	0.328	0.335	0.342
Ffioedd Archwilio ac Arolygu	0.461	0.476	0.485	0.495
Ardoll y Gwasanaeth Tân ac Ardollau Eraill	5.450	5.668	5.838	6.014
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Budd-daliadau Eraill	7.935	8.331	8.581	8.796
Costau Cyllido Cyfalaf a Llog a Dderbynnir	5.396	6.446	6.839	7.469
Cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl	1.199	1.200	1.127	1.152
CYFANSWM GWARIANT GROS	264.009	273.521	280.680	288.104
Grantiau	(30.389)	(30.692)	(31.613)	(32.561)
Ffioedd a Thaliadau	(15.544)	(15.936)	(16.333)	(16.739)
Ail-godi Tâl	(9.267)	(9.546)	(9.737)	(9.932)
Rhenti	(1.780)	(1.816)	(1.852)	(1.889)
CYFANSWM INCWM GROS	(56.980)	(57.990)	(59.535)	(61.121)
GWARIANT REFENIW NET	207.029	215.531	221.145	226.983
Cynnydd yn y Gyllideb Refeniw Net		8.502	5.614	5.838
% Cynnydd yn y Gyllideb Refeniw Net		+4.11%	+2.60%	+2.64%

**CRYNODEB AMCANGYFRIF O'R GYLLIDEB REFENIW NET FESUL GWASANAETH 2026/27 -
2029/30**

	2026/27 £'m		2027/28 £'m		2028/29 £'m		2029/30 £'m	
Datblygu Economaidd	1.023		1.058		1.077		1.098	
Cyrchfan	0.790		0.820		0.834		0.849	
Hamdden	0.955		1.002		1.016		1.034	
Cynllunio	1.372		1.494		1.519		1.546	
Gwarchod y Cyhoedd	2.032		2.158		2.199		2.244	
Rheoleiddio		6.172		6.532		6.645		6.771
Priffyrdd	8.653		9.153		9.289		9.431	
Eiddo	1.978		2.064		2.112		2.167	
Gwastraff	10.788		11.152		11.358		11.570	
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo		21.419		22.369		22.759		23.168
Gwasanaethau Oedolion		45.377		48.466		50.327		51.875
Gwasanaethau Plant		18.606		20.101		20.885		21.711
Ysgolion	57.407		56.388		57.383		58.259	
Addysg Ganolog	14.314		14.922		15.274		15.633	
Diwylliant	1.657		1.712		1.747		1.785	
Addysg a Diwylliant		73.378		73.022		74.404		75.677
AD, Cyfathrebu a Gofal Cwsmer		2.246		2.316		2.362		2.412
Digidol, Perfformiad a Moderneiddio		6.472		6.829		6.991		7.162
Tai		2.098		2.184		2.249		2.316
Adnoddau		4.248		4.387		4.470		4.561
Busnes y Cyngor		2.380		2.694		2.507		2.560
Rheolaeth Gorfforaethol		0.878		0.904		0.922		0.942
Cyllido Cyfalaf	5.396		6.446		6.839		7.469	
Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor / Budd-daliadau	7.935		8.332		8.581		8.796	
Ardollau	5.450		5.668		5.839		6.013	
Cefnogaeth ar gyfer Prynwyr Tro Cyntaf	1.050		1.103		1.136		1.164	
Corfforaethol a Democrataidd	3.590		3.734		3.876		4.026	
Ail-godi Tâl ar y CRT (Cyfrif Refeniw Tai)	(0.865)		(0.891)		(0.909)		(0.927)	
Cyllidebau ar gyfer digwyddiadau annisgwyl	1.199		1.335		1.262		1.287	
Ddim yn gysylltiedig â Gwasanaethau		23.755		25.727		26.624		27.828
CYFANSWM GWARIANT NET		207.029		215.531		221.145		226.983